------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 9 Hydref 2014**

Amser:
**09.00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales


I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Sarah Beasley**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8032
pwyllgor.CCLll@cymru.gov.uk


## Agenda

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-2016 - Sesiwn dystiolaeth gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth a'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (9.00 - 9.45) (Tudalennau 1 - 17)

Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Jo Salway, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllidebu Strategol
Amelia John, Pennaeth yr Is-adran Dyfodol Tecach

### 3 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-2016 - Sesiwn dystiolaeth gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (9.45 - 11.15) (Tudalennau 18 - 56)

Leighton Andrews AC, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol

Debra Carter - Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid a Pherfformiad Llywodraeth Leol

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol: eitemau 5 a 6

## 5 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-2016 - trafod sesiynau tystiolaeth 1 a 2 (11.15 - 11.25)

## 6 Y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru): trafod y prif faterion (11.25 - 12.00) (Tudalennau 57 - 70)

**(Cinio 12.00 - 13.00)**

## 7 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-2016 - Sesiwn dystiolaeth gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (13.00 - 14.30) (Tudalennau 71 - 110)

Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Kate Cassidy, Cyfarwyddwr, Cymunedau a Threchu Tlodi
John Howells, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio
Peter Jones, Pennaeth Cyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

## 8 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-2016 - Sesiwn dystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth (14.30 - 15.30) (Tudalennau 111 - 141)

Ken Skates AC, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Huw Brodie, Cyfarwyddwr Diwylliant a Chwaraeon
Huw Davies, Pennaeth Cyllid, Diwylliant a Chwaraeon

## 9 Papurau i'w nodi (Tudalennau 142 - 146)

## 10 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 11 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-2016 - trafod sesiynau tystiolaeth 3 a 4 (15.30 - 15.40)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

**Dyddiad:** **9 Hydref 2014**

**Amser:** **9.00am i 9.45pm**

**Papur tystiolaeth – Cyllideb Ddrafft 2015-16: Asesiad Integredig Strategol o Effaith**

**Cyflwyniad**

1. Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i gefnogi'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2015-16.

**Cefndir**

2. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i asesu effaith ei phenderfyniadau gwario ar bobl Cymru. Yng Nghyllideb Ddrafft 2011-12, Llywodraeth Cymru oedd y Weinyddiaeth gyntaf yn y DU i asesu effaith ei chynlluniau gwario. Ers hynny, mae'r Llywodraeth wedi ymdrechu i wella'r dull gweithredu yn barhaus o flwyddyn i flwyddyn.

3. Cyhoeddwyd Asesiad Integredig Strategol o Effaith (SIIA) Cyllideb Ddrafft 2015-16 fel dogfen annibynnol ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft ar 30 Medi 2014.

   Cyd-destun Strategol

4. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ymrwymiad y Llywodraeth i ddatblygu cymdeithas decach lle y gall pawb wneud y gorau o'u galluoedd a chyfrannu at y gymuned y maent yn byw ynddi. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n galed i ystyried effaith ei phenderfyniadau gwario, gan gynnwys yr effaith ar gyfle cyfartal, drwy gynnal asesiad o effaith ei chyllideb. Mae'r dull gweithredu hwn, sy'n gweithio'n effeithiol ar draws portffolio pob Gweinidog a'r sector cyhoeddus ehangach i gyflawni'r canlyniadau rydym am eu gweld ar gyfer Cymru, yn hollbwysig yn yr hinsawdd ariannol ac economaidd gyfredol.

5. Bydd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn adeiladu ar y dull gweithredu hwn ac yn cynnwys yn y gyfraith chwe nod unedig, clir ar gyfer dyfodol Cymru y bydd pob un ohonom yn ymdrechu i'w cyflawni - darparant weledigaeth a rennir ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru. Y nodau hyn yw cael Cymru lewyrchus; gydnerth; iachach; mwy cyfartal; â chymunedau cydlynus; a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

**Cyllideb Ddrafft 2015-16: Asesiad Integredig Strategol o Effaith**

6. Y llynedd, nododd y Llywodraeth ei bwriad i symud tuag at ddull gweithredu mwy integredig o ymdrin â'r asesiad o effaith y gyllideb. Daeth y Llywodraeth i'r casgliad bod asesiad integredig yn rhoi asesiad mwy realistig o effaith gyffredinol penderfyniadau gwario a chydnabuwyd, yng nghyd-destun cyllidebau sy'n

lleihau, nad oes un ateb bob tro a fydd yn rheoli effaith penderfyniad ym mhob maes.

*7.* Yn unol â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio asesiad strategol ac integredig o'r gyllideb, sy'n ystyried cydraddoldeb, trechu tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol, hawliau plant a'r iaith Gymraeg. Mae'r dull gweithredu hwn yn adlewyrchu pwysigrwydd ystyried cynaliadwyedd penderfyniadau a'r nodau ac amcanion a nodir ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gan gynnwys y ffocws ar atal, cydweithredu a gwneud penderfyniadau hirdymor. Mae'r dull gweithredu integredig hwn hefyd yn cydnabod y gydberthynas rhwng effeithiau gwahanol.

8. Nodir dull gweithredu'r Llywodraeth o dan bob maes isod:

<u>Cydraddoldeb</u>

- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol ym mis Ebrill 2012, yn dilyn ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd. Mae'r cynllun a'r wyth Amcan Cydraddoldeb sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a geir ynddo, yn nodi meysydd o anghydraddoldeb llwyr ac yn nodi sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r rhain er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl Cymru.

- Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i roi 'ystyriaeth briodol' i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig. Mae'r Dyletswyddau Penodol, fel y'u nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 wedi'u llunio er mwyn helpu awdurdodau i gydymffurfio a'u Dyletswydd Gyffredinol, ac maent yn cynnwys y gofyniad i asesu effeithiau posibl ar gydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau. Mae'r asesiad o effaith y Gyllideb yn gyfle i Lywodraeth Cymru ddangos ei bod wedi rhoi 'sylw dyledus' i nodau'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol.

- Fel sail bellach i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gydraddoldeb, mae'r ddyletswydd o dan Adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**,** i wneud trefniadau i sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu harfer, gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb.

<u>Trechu Tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol</u>

- Mae blaenoriaethu anghenion y tlotaf a diogelu'r rhai mwyaf difreintiedig a mwyaf agored i niwed yn hollbwysig, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd gyfredol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn darparu fframwaith pwysig, ac mae'r camau gweithredu i drechu tlodi a chamau gweithredu i leihau anghydraddoldebau nid yn unig yn ategu ei gilydd ond yn adeiladu ar ei gilydd hefyd.

- Dengys y dystiolaeth fod pobl sydd â nodweddion gwarchodedig penodol yn wynebu mwy o risg o fyw mewn cartrefi incwm isel ac felly bydd mentrau sy'n trechu tlodi yn cael effaith gadarnhaol ar y grwpiau hynny. Gwyddom hefyd fod rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, rhieni unigol (merched yn bennaf), a phobl iau nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant yn wynebu mwy o risg o fyw mewn cartrefi incwm isel. Yn arbennig, mae cynrychiolaeth anghymesur o bobl anabl mewn cartrefi economaidd anweithgar a chartrefi heb waith. Byddwn yn parhau i nodi cyfleoedd i gysoni Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru â'r amcanion yn y Strategaeth Tlodi Plant a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, a helpu'r plant a'r teuluoedd hynny sydd â nodweddion gwarchodedig penodol.

  <u>Hawliau Plant</u>

- Yn 2011, Cymru oedd y Weinyddiaeth gyntaf yn y DU i gynnwys hawliau plant o fewn cyfraith ddomestig pan gyflwynwyd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r Mesur yn ymgorffori'r ystyriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) a'r protocolau dewisol yng nghyfraith Cymru. Mae'r brif ddyletswydd sy'n ofynnol yn y Mesur, o dan adran 1, yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion roi ystyriaeth briodol i'r UNCRC. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i holl Weinidogion Cymru ystyried hawliau plant wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau. Mae Cynllun Hawliau Plant 2014 yn nodi'r trefniadau sydd gennym ar waith i gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi ystyriaeth briodol i'r UNCRC ac yn adlewyrchu'r ymrwymiad parhaus i hawliau plant. Gall y broses o roi ystyriaeth briodol amrywio o feddwl am effaith penderfyniadau ar blant yn ystod gweithgareddau gwaith o ddydd i ddydd, i'r defnydd ffurfiol o ddull asesu effaith strwythuredig wedi'i ategu gan gofnod o'r canlyniadau. Mae Gweinidogion wedi ystyried effaith eu penderfyniadau gwario ar y plant a'r bobl ifanc fel rhan o'r SIIA.

  <u>Yr Iaith Gymraeg</u>

- Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru, a nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith yn cynyddu. Cynhelir Asesiadau o Effaith ar y Gymraeg ar bob polisi a chynnig deddfwriaethol a gyflwynir. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae prif ffrydio materion Cymraeg yn y broses o wneud polisïau a chyflwyno rhaglenni wedi golygu bod gwasanaethau'n cael eu datblygu a'u bod ar gael ar sail gwbl ddwyieithog, a defnyddwyr y gwasanaethau sy'n dewis pa iaith i'w defnyddio.

- O 2015-16, yn unol â'r dyletswyddau a osodwyd o dan Fesur newydd y Gymraeg (Cymru) 2011, bydd rhwymedigaeth statudol ar y rhai sy'n llunio polisïau i ystyried yr effaith ar y Gymraeg wrth ddatblygu polisïau. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i sicrhau bod prosesau ar waith er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyrraedd y safonau hyn. Un o themâu allweddol y Datganiad Polisi drafft diweddar *Iaith Fyw: Iaith Byw - Symud Ymlaen*, yw'r angen am gynllunio strategol gwell ar gyfer y Gymraeg. Rhaid i Lywodraeth a chymdeithas ddinesig ymgorffori egwyddorion cynllunio iaith mewn cynlluniau strategol prif ffrwd. Rydym am i arweinwyr gymryd mwy o gyfrifoldeb am y Gymraeg; ac i hyrwyddo'r iaith fel rhywbeth sydd yr un mor ganolog i

ddatblygu economaidd ag y mae i weithgarwch diwylliannol. Fel y cyfryw, bydd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi'r iaith Gymraeg ffyniannus wrth wraidd y broses o ddiffinio Cymru gynaliadwy. Bydd y Bil yn garreg filltir bwysig i'r iaith, gan bwysleisio ei statws swyddogol a bydd yn helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan amlwg o'r agenda yng Nghymru ymhell i'r dyfodol.

- Rydym wedi cymryd camau i ystyried effaith cynlluniau gwario eleni ar y Gymraeg, ond yn cydnabod mai dechrau'r broses yw hyn a bod mwy o waith i'w wneud i ymgorffori'r arferion hyn ym mhob rhan o'r Llywodraeth. Rydym yn ymrwymedig i wella ein dull o asesu effaith gwariant ar brosiectau iaith Gymraeg.

<u>Datblygu Cynaliadwy</u>

- Mae datblygu cynaliadwy yn ategu cynlluniau gwario'r Llywodraeth. Mae hyn yn golygu bod penderfyniadau yn gynaliadwy yn ariannol. Yn yr un modd, mae'n golygu seilio penderfyniadau am flaenoriaethau ar dystiolaeth gadarn a sicrhau ein bod yn cydbwyso goblygiadau byrdymor â'r effaith tymor hwy ar ein hamcanion strategol. Daw'r math hwn o ystyriaeth yn bwysicach nag erioed wrth i gyllidebau leihau ac wrth i ni wynebu penderfyniadau am ble i leihau'r gwariant yn hytrach na ble i fuddsoddi adnoddau ychwanegol. Mae datblygu cynaliadwy wedi deillio o'r angen am fodel datblygu nad oedd yn canolbwyntio ar dwf economaidd yn unig, er mwyn ymateb i ymwybyddiaeth amgylcheddol a chyfiawnder cymdeithasol gynyddol. Mae datblygu cynaliadwy wrth wraidd agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru ac mae wedi bod wrth wraidd ei chyfansoddiad ers 1998.

- Bydd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn rhoi datblygu cynaliadwy wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac mae hyn yn golygu ystyried effeithiau hirdymor, boed yn economaidd, amgylcheddol neu gymdeithasol. Bydd datblygiad y Bil yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o wella ein dealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy yn y dyfodol yn ogystal ag integreiddio'r gwaith hwn yn well. Mae sicrhau bod penderfyniadau yn gyson ag ymddygiad datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn y Bil: meddylfryd hirdymor; integreiddio; gweithio ar draws ffiniau sefydliadol; canolbwyntio ar atal; ymgysylltu a chymryd rhan. Mae'r rhain yn diffinio'r hyn a olygwn gan lywodraethu da ar gyfer datblygu cynaliadwy yn y Bil.

**Cyllideb Ddrafft 2015-16: Penderfyniadau Allweddol**

9. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried effaith ei phenderfyniadau gwario fel rhan annatod o'r broses o gynllunio cyllideb. Mae hyn yn golygu, mewn sawl achos, ein bod eisoes wedi cymryd camau cynnar yn y broses o bennu'r gyllideb i leihau effeithiau negyddol. Adlewyrchir yr ystyriaethau hyn yng nghyflwyniad yr SIIA, lle rydym wedi ceisio tynnu sylw at benderfyniadau allweddol, gan gynnwys y rhai sy'n arwain at effaith gadarnhaol, yn ogystal â'r camau rydym wedi'u cymryd i leihau effeithiau negyddol o bosibl. Wrth fabwysiadu'r dull gweithredu hwn, mae'n bwysig ein bod yn cydbwyso ein hystyriaethau rhwng yr asesiadau effaith

amrywiol er mwyn nodi pob cyfle posibl i leihau'r effeithiau. Mae enghreifftiau o'r penderfyniadau allweddol a wnaethom yn cynnwys y rhai canlynol:

- Iechyd a Lles - mae'r cyllid ychwanegol o £225m ar gyfer iechyd yn 2015-16 yn ymateb i dystiolaeth gan Ymddiriedolaeth Nuffield. Bydd y cyllid hwn yn cael effaith gadarnhaol ar bob defnyddiwr gwasanaeth ond yn enwedig ar gartrefi incwm isel, gan fod ymchwil yn awgrymu bod gwario ar wasanaethau cyhoeddus megis iechyd ac addysg yn lleihau anghydraddoldeb.

- Twf a Swyddi Cynaliadwy - bydd y cyfalaf ychwanegol o £90m, gan gynnwys £11.2m ychwanegol eleni, yn helpu i gyflawni blaenoriaethau buddsoddi'r Llywodraeth. Mae'r pecyn yn cynnwys £37m ar gyfer amrywiaeth o fentrau tai, £2m i adnewyddu, ymestyn, adleoli neu ddatblygu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a £5m ar gyfer cynllun Twf Gwyrdd Cymru, sydd â'r nod o geisio cynyddu a chyflymu prosiectau ynni i hwyluso hyd at £500m o fuddsoddiad yng Nghymru.

- Cyrhaeddiad Addysgol – caiff y penderfyniad i gadw'r cyllid i ddiogelu cyllidebau ysgolion ar 1% yn uwch na'r newidiadau yn Nherfyn Gwariant Adrannol (DEL) Cymru yn ystod cyfnod yr Adolygiad hwn o Wariant effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc, yn enwedig o ran gwella cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel a lleihau nifer y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, sy'n ganolog i'n Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi.

- Cefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig - mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi Buddiannau Cyffredinol, sy'n cyfrannu at greu cymdeithas fwy cyfartal. Mae'r mentrau hyn yn cefnogi'r rhai mwyaf difreintiedig a mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas a hefyd y rhai sy'n colli'r cyfle i gael cymorth prawf modd o drwch blewyn.

10. Mae realiti lleihau cyllidebau yn golygu bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Yn yr un modd, mae ffocws gwariant cyhoeddus yn golygu bod y gostyngiadau hynny bron bob tro yn debygol o arwain at effeithiau negyddol. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Llywodraeth yn parhau i fod yn ymrwymedig i reoli risgiau mewn ffordd sy'n sicrhau nad oes unrhyw grŵp yn wynebu effeithiau anghymesur - mae'r dull integredig o ymdrin ag asesiadau o effaith yn hollbwysig i gefnogi'r gwaith hwnnw.

11. Mewn rhai achosion, mae Llywodraeth Cymru wedi barnu bod yr effeithiau posibl yn rhy fawr a newidiodd ei chynlluniau yn unol â hynny. Er enghraifft, datgelodd y dystiolaeth a ddaeth i'r amlwg o'r asesiad o effaith fod pwysau demograffig wedi arwain at ddyblu gwariant bron ar wasanaethau cymdeithasol ers 2001-02. Ategwyd y pryderon hyn gan lywodraeth leol hefyd. Wrth ystyried effaith gostyngiadau arfaethedig ar lywodraeth leol, newidiodd Llywodraeth Cymru ei chynlluniau er mwyn ymateb i'r dystiolaeth hon a neilltuodd £10m ychwanegol i awdurdodau lleol i gydnabod y pwysau ym maes gwasanaethau cymdeithasol a'u cyfraniad at yr agenda iechyd.

Gwariant Ataliol

12. Cydnabu Llywodraeth Cymru na fu'r gwaith o sicrhau'r defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael erioed mor bwysig, yn enwedig i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae ymrwymiad y Llywodraeth i wariant ataliol, sy'n ategu Cyllideb Ddrafft 2015-16, yn rhan annatod o'r broses o lunio polisïau cynaliadwy ac yn elfen allweddol yn y broses o lunio'r penderfyniadau a wneir ar hyn o bryd i leihau pwysau ar wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Yn unol â hyn, mae cynlluniau gwario'r Llywodraeth yn helpu i hyrwyddo newid tuag at wariant ataliol.

13. Mae enghreifftiau o'r dull ataliol hwn yn cynnwys y penderfyniadau canlynol:

- £17.6m i gefnogi rhaglenni imiwneiddio a brechu, gan gynnwys y brechiad rhag y ffliw tymhorol i blant a brechiad yr eryr i bobl hŷn;

- £12.1m ar gyfer Rhaglen Her Ysgolion;

- £5.2m, yn 2015-16, i gefnogi amrywiaeth o fentrau a anelir at atal a lleihau troseddau ieuenctid, yn bennaf drwy'r Gronfa Atal Troseddau Ieuenctid;

- £2.2m i gefnogi Gwasanaethau Cynghori fel y gallant barhau â'u gwaith ataliol sy'n cynnig cyngor a chymorth i bobl ar gyllidebu, dyledion a budd-daliadau, gyda'r nod o helpu pobl cyn iddynt wynebu sefyllfa lle mae'n rhaid iddynt chwilio am ffynonellau arian megis y Gronfa Cymorth Dewisol.

**Tystiolaeth**

14. Mae tystiolaeth ynghylch nodweddion penodol yn gyfyngedig iawn o hyd, sy'n ei gwneud hi'n anodd asesu effaith bosibl ein penderfyniadau gwario ar y grwpiau gwarchodedig hyn yn gywir. Fel rhan o'n hymrwymiad i wella'r sail dystiolaeth, rydym wedi cynnal adolygiad o'r dystiolaeth ar anghydraddoldeb yng Nghymru.

15. Wrth gynnal yr adolygiad, casglwyd data yn bennaf o arolygon cenedlaethol a rhai ar lefel y DU (cafodd yr olaf ei ddadgyfuno i lefel Cymru). Yn ogystal, defnyddiwyd data gweinyddol ac arolygon llai i lenwi rhai o'r bylchau yn ein gwybodaeth. Fe'i trefnir yn gyffredinol ar sail themâu penodol (e.e. Addysg, Iechyd, Trafnidiaeth ac ati). Rhennir y themâu hyn ymhellach yn ôl nodwedd warchodedig. Bwriedir i'r strwythur hwn helpu defnyddwyr i ddod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol yn gyflym ond mae ganddo ail ddiben hefyd sef tynnu sylw at y bylchau sy'n weddill yn ein sail dystiolaeth. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar 6 Hydref.

16. Mae'r adroddiad yn ddogfen fyw, a gaiff ei diweddaru bob blwyddyn wrth i ddata arolygon newydd ac ymchwil newydd ddod ar gael. Bwriedir iddo weithredu fel adnodd a fydd yn helpu i ystyried effeithiau ar gydraddoldeb fel rhan o'r broses o ddatblygu polisïau.

**Ymgysylltu**

17. Mae ein dull o ymdrin â'r Asesiad Integredig Strategol o Effaith wedi'i lywio gan argymhellion gan randdeiliaid amrywiol, gan gynnwys Pwyllgorau'r Cynulliad, Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE) a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

<u>Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb</u>

18. Yn yr Asesiad o Effaith Cyllideb Ddrafft 2013-14 ar Gydraddoldeb, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i sefydlu Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE) o fewn Llywodraeth Cymru. Sefydlwyd y grŵp hwn ym mis Rhagfyr 2012 a chynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ym mis Mawrth 2013. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o gynrychiolwyr mewnol Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr allanol o sefydliadau cydraddoldeb yn y trydydd sector a'r sector gwirfoddol yn ogystal ag economegydd academaidd fel cynghorydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru.

19. Mae gan y Grŵp ran allweddol i'w chwarae wrth gefnogi gwelliant parhaus o ran Asesiad o Effaith Cyllideb Llywodraeth Cymru. Mae'n darparu fforwm ar gyfer rhannu a thrafod natur yr anghydraddoldebau yng Nghymru ac mae'n ffynhonnell werthfawr o gyngor ac yn sianel ymgysylltu allweddol.

<u>Aelodaeth</u>

20. Yn 2012-13, cadeiriwyd y BAGE gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, a oedd yn gyfrifol am gydraddoldeb. Ers mis Gorffennaf 2013, mae'r grŵp wedi cael ei gyd-gadeirio gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth a'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Cynrychiolir y grwpiau canlynol ar y BAGE:

  - WEN Cymru
  - Race Equality First
  - Stonewall
  - Anabledd Cymru
  - Age Cymru
  - Grŵp Monitro UNCRC
  - TUC Cymru
  - CGGC
  - CLlLC
  - Y GIG (Arweinydd Cydraddoldeb)
  - Aelod Academaidd (Caroline Joll, Ysgol Fusnes Caerdydd)
  - Pennaeth Dyfodol Tecach, Llywodraeth Cymru
  - Pennaeth Cyllidebu Strategol, Llywodraeth Cymru

21. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) yn sefydliad cynghori annibynnol ac mae'n anfon cynrychiolydd i gyfarfodydd y grŵp i roi cyngor.

<u>Crynodeb o'r Gwaith</u>

22. Ffocws allweddol trafodaethau a gwaith y Grŵp hyd yma fu meithrin dealltwriaeth o broses Cyllideb Llywodraeth Cymru ei hun, yr amgylchedd

economaidd cyfredol, a'r ffordd y mae'r rhain yn cyfyngu ar ein hystyriaethau ynglŷn â chydraddoldeb. Mae hyn wedi arwain at ffocws pendant ar bwysigrwydd creu sail dystiolaeth gadarn, a sicrhau yr ymgysylltir â phobl sydd â nodweddion gwarchodedig ledled Cymru, fel y gellir nodi a deall natur y materion sylfaenol sy'n ymwneud â chydraddoldeb.

23. Mae'r grŵp nid yn unig yn ystyried y dystiolaeth a'r effaith ar nodweddion gwarchodedig (fel y'u manylir yn Neddf Cydraddoldeb 2010), ond hefyd yn ystyried y dystiolaeth ynghylch grwpiau economaidd-gymdeithasol gwahanol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i fabwysiadu'r dull gweithredu ehangach hwn i ddeall yn well natur yr anghydraddoldeb ac i sicrhau cysondeb â Chynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru. Mae pynciau a materion a drafodwyd mewn gweithdai yn ystod y cyfnod hwn wedi cynnwys Datblygu'r Sail Dystiolaeth ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2015-16, Asesiad o Effaith Cyllideb Ddrafft 2015-16, Sut mae gwariant y Llywodraeth ar wasanaethau cyhoeddus yn effeithio ar anghydraddoldeb?, Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

24. Trafodwyd y dull o ymdrin ag asesiad o effaith Cyllideb Ddrafft 2014-15 yng nghyfarfodydd Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE) ym mis Hydref 2013 a mis Ionawr 2014. Cydnabu'r Aelodau yr her o asesu effaith y gyllideb mewn modd ystyrlon. Dywedodd y Grŵp fod y ddogfen yn rhy hir ac yn rhoi gormod o naratif a manylion. Dywedodd y byddai'n croesawu dull mwy penodol a throsolwg o effeithiau cadarnhaol a negyddol allweddol y penderfyniadau ar y gyllideb. Awgrymodd y Grŵp y byddai dogfen fyrrach o lawer a oedd yn cynnwys llai o wybodaeth gefndirol, a mwy o ddefnydd o graffiau a thablau, yn fwy hygyrch i'r cyhoedd. Wrth ddatblygu'r SIIA rydym wedi ymateb i'r adborth hwn a chymeradwywyd ein dull gweithredu gan y Grŵp yn gynharach eleni.

<u>Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC)</u>

25. Cyhoeddwyd Ymchwiliad Gwerthfawrogol o ddull gweithredu Llywodraeth Cymru o ymdrin ag Asesiad o Effaith y Gyllideb Ddrafft ar Gydraddoldeb ym mis Tachwedd 2012. Tynnodd sylw at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella'r Asesiad o Effaith ei Chyllideb ar Gydraddoldeb a gwnaeth sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r cynnydd a wnaed eisoes.

26. Roedd canfyddiadau'r Ymchwiliad Gwerthfawrogol yn cynnwys cyfres o argymhellion i wella'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ymhellach, gan gynnwys ffocws cynyddol ar benderfyniadau strategol a gwelliannau i'r sail dystiolaeth. Croesawodd y Llywodraeth yr argymhellion pan gyhoeddodd yr Asesiad o Effaith Cyllideb Ddrafft 2014-15. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ystyried yr argymhellion o ran datblygu ei dull o ymdrin â Chyllideb Ddrafft 2015-16, gan gynnwys y penderfyniad i symud i ddogfen fwy strategol a phenodol a chyhoeddi'r adolygiad o'r dystiolaeth.

<u>Taith Cyllideb 2014: Blaenoriaethau a Rhagolygon</u>

27. Dros y chwe mis diwethaf mae'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth wedi cynnal *Taith Cyllideb 2014: Blaenoriaethau a Rhagolygon*, a oedd yn cynnwys cyfres o ddigwyddiadau rhanbarthol ledled Cymru. Roedd y daith yn gyfle i gwrdd â staff sy'n gweithio yn y rheng flaen wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a gwrando arnynt - mewn awdurdodau lleol, ym meysydd iechyd a thai ac yn y Trydydd Sector. Roedd hefyd yn cynnwys ymweliadau â phrosiectau i gwrdd â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn, megis prentisiaid a disgyblion, trigolion tai cymdeithasol a rhieni - i wrando ar eu barn ar y gwasanaethau a dderbyniant a'r hyn sydd bwysicaf iddynt.

28. Un neges glir a ddeilliodd o Daith y Gyllideb oedd pwysigrwydd parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu ffyrdd newydd o gydweithio, gan ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar er mwyn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i bobl Cymru. Mae'r cydweithredu hwn yn golygu integreiddio gwasanaethau yn well ond mae hefyd yn golygu cydweithio i ddatblygu datrysiadau newydd ac arloesol. Mewn cyllidebau blaenorol, mae'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth wedi tynnu sylw at bwysigrwydd buddsoddi nawr er mwyn arbed yn nes ymlaen. Mae'r dull ataliol hwn wedi cael ei groesawu drwy gydol Taith y Gyllideb ac mae'n amlwg bod yn rhaid inni barhau, ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, i anelu'r adnoddau tuag at ddulliau o atal ac ymyrryd yn gynnar, hyd y gellir. Bydd y dull gweithredu hwn hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel mewn ffordd sy'n gynaliadwy yn y tymor hwy, yn unol â nodau Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac adlewyrchir hyn yng Nghyllideb Ddrafft 2015-16.

**Rhagor o Wybodaeth**

29. Dylid darllen y papur tystiolaeth hwn ar y cyd â Naratif Cyllideb Ddrafft 2015-16 a'r Asesiad Integredig Strategol o Effaith a geir yn:

    http://cymru.gov.uk/funding/budget/draft-budget-2015-16/?lang=cy

**Jane Hutt AC,**
**Y Gweinidog Cyllid a Busnes Y Llywodraeth**

**Lesley Griffiths AC,**
**Y Gweinidog Cymundeau a Threchi Tlodi**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

**Dyddiad:** **9 Hydref 2014**

**Amser:** **9.45am i 11.15am**

**Teitl:** **Papur tystiolaeth – Llywodraeth Leol, Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2015-16.**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am gynigion ar gyfer cyllidebau rhaglenni Llywodraeth Leol yn y dyfodol a amlinellwyd yn y Gyllideb Ddrafft a gyhoeddwyd ar 30 Medi 2014. Mae'n ymdrin â Llywodraeth Leol a chymunedau mwy diogel.

## 2. Cefndir

O gymharu â'r cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd adeg Cyllideb Derfynol 2014-15, mae cyfanswm dyraniad DEL Llywodraeth Leol wedi lleihau £85.779m yn 2015-16. O fewn y sefyllfa gyffredinol hon, mae cynnydd net o £25.927m yn 2015-16 ar gyfer trosglwyddiadau i'r Grant Cynnal Refeniw.

Nid oes unrhyw newid i'r gyllideb gyfalaf gyffredinol o £22.9m yn 2015-16. Mae'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) ar gyfer Pensiynau'r Gwasanaethau Tân wedi gostwng i £23.5m, yn unol â'r amcangyfrif diweddaraf.

Dengys y tabl ariannol cryno canlynol yr effaith gyffredinol ar gyllideb sylfaenol Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Leol. Nid yw'n cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) am nad yw'n rhan o Derfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth Cymru.

**Tabl Ariannol Cryno ar gyfer Prif Grŵp Gwariant (MEG) Llywodraeth Leol**

| | Cyllideb Atodol 2014-15 £000 | Cynlluniau Dangosol Cyllideb Derfynol 2015-16 £000 | Newidiadau 2015-16 £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2015-16 £000 |
|---|---|---|---|---|
| DEL adnoddau | 4,574,093 | 4,467,231 | -85,779 | 4,381,452 |
| DEL cyfalaf | 22,920 | 22,920 | 0 | 22,920 |
| DEL sylfaenol | 4,597,013 | 4,490,151 | -85,779 | 4,404,372 |

## 3. Trosolwg o'r Gyllideb

Mae gan yr Adran Llywodraeth Leol dair prif rôl:

- Darparu fframwaith deddfwriaethol a chyllidol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru, sy'n hyrwyddo gonestrwydd, tryloywder ac atebolrwydd wrth wella gwasanaethau cyhoeddus;
- Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau (gan gynnwys ofn troseddau) a gweithio i leihau nifer yr achosion o danau ac argyfyngau eraill a'u heffaith;
- Darparu arweinyddiaeth genedlaethol er mwyn sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn cydweithio â'i gilydd yn effeithiol i roi pobl yn gyntaf a defnyddio arian cyhoeddus yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl drwy gydweithredu.

Nodir ein dull o weithredu yn y themâu a gaiff eu cynnwys ym Mhenodau 2 a 7 o'r Rhaglen Lywodraethu.Yn y cyd-destun hwn, yn ogystal â chyfeirio at Lywodraeth Leol, mae ein nodau hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd ein gwaith partneriaeth ac maent yn berthnasol i'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Maent yn cynnwys:

- Atgyfnerthu democratiaeth leol;
- Cefnogi gwelliant parhaus mewn gwasanaethau cyhoeddus;
- Sicrhau bod ein cyllid yn helpu i ddarparu gwasanaethau cryfach a mwy effeithiol, gan gynnwys helpu i ddarparu gwasanaethau ataliol;
- Sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd;
- Sicrhau bod pawb yn byw mewn cymunedau mwy diogel.

Yn unol â'r gwaith partneriaeth hwn, rwyf wedi nodi ein huchelgeisiau ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru ac wedi cyhoeddi ein bod yn bwriadu ymgynghori ymhellach a gofyn am farn Awdurdodau Lleol, y sector cyhoeddus ehangach a'r cyhoedd er mwyn helpu i ddatblygu Bil drafft y byddwn yn cynnal ymgynghoriad arno yn ystod hydref 2015. Hefyd, mae ein gwaith yn cyfrannu at lawer o nodau'r Rhaglen Lywodraethu drwy ein pwyslais trawsbynciol ar atgyfnerthu gwasanaethau cyhoeddus, cyllido gwasanaethau lleol a hyrwyddo diogelwch cymunedol.

O fewn y newidiadau cyffredinol i'r MEG Llywodraeth Leol, mae trosglwyddiadau net o £25.927m i'r **Grant Cynnal Refeniw** yn 2015-16. Mae'r trosglwyddiadau'n cynnwys:

- Trosglwyddiad o £10m i mewn o'r Cronfeydd Wrth Gefn er mwyn darparu cyllid ychwanegol i Wasanaethau Cymdeithasol;

- Trosglwyddiad o £14m i mewn o'r Cronfeydd Wrth Gefn er mwyn darparu cyllid ychwanegol i gyflawni ymrwymiad y Prif Weinidog i ddiogelu cyllid ysgolion;

- Trosglwyddiad o £4.6m i mewn o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd;

- Trosglwyddiad o £0.88m i mewn o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig;

- Trosglwyddiad o £2.5m allan i'r MEG Addysg a Sgiliau ar gyfer Cyllid Myfyrwyr;

- Trosglwyddiad o £0.54m allan i'r MEG Addysg a Sgiliau ar gyfer Seicolegwyr Addysg;

- Trosglwyddiad o £0.49m allan i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Diogelwch Bwyd Anifeiliaid.

Yn olaf, o fewn y newidiadau cyffredinol, mae trosglwyddiad o £0.13m allan i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ar gyfer Rhaglen Gaffael Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus. Ceir rhai trosglwyddiadau o fewn y MEG hefyd er mwyn sicrhau mwy o gysondeb â chynllun busnes yr Adran, ac er mwyn dod â chyllidebau sy'n canolbwyntio ar lywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus at ei gilydd.

Bydd rhagor o fanylion ar gael pan fydd yr Adroddiad Dros Dro ar Gyllid Llywodraeth Leol yn cael ei gyhoeddi ar 8 Hydref 2013. Bydd yr adroddiad hwn yn nodi swm y Grant Cynnal Refeniw y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei ddosbarthu i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yn 2015-16 ynghyd â'r sail dros ddosbarthu'r grant hwnnw.

Er mwyn egluro newidiadau'r Gyllideb Ddrafft i'r MEG Llywodraeth Leol, mae dadansoddiad yn ôl BEL ar gael yn Atodiad 1.

## 4. Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu

Swyddogion Cymorth Cymunedol

Gwnaed darpariaeth i gyllido'r 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol (SCC) ychwanegol a gafodd eu recriwtio o dan Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu. Paratowyd amcangyfrifon o gostau ar y cyd â'r pum Heddlu dan sylw ac mae cynlluniau'n cynnwys darpariaeth ddigonol. Llwyddwyd i gyflawni'r targed recriwtio ym mis Hydref 2013 a chomisiynwyd ymchwil allanol i werthuso effaith yr SCCau ychwanegol. Rydym yn disgwyl y bydd canlyniadau'r ymchwil hon ar gael ar ddiwedd y flwyddyn. Rydym yn ymrwymedig i Gefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig drwy sicrhau bod **cymunedau'n fwy diogel** ac felly rydym yn diogelu'r cyllid ar gyfer SCCau gan ddyrannu £16.8m yn 2015-16 er mwyn cynnal ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu.

Llywodraeth Leol

Mae gwariant Llywodraeth Leol yn hollbwysig er mwyn cefnogi addysg, gofal cymdeithasol, tai ac ystod o wasanaethau eraill sy'n ceisio rhoi'r cyfle gorau i bobl fyw bywydau iach a

ffyniannus.  Mae'r buddsoddiadau hyn yn gwneud cyfraniad pwysig i holl themâu ein Cyllideb, gan gynnwys Iechyd a Lles, Twf a Swyddi Cynaliadwy, Cyrhaeddiad Addysgol a Chefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig.  Mae'r cyllid a ddarparwn i gefnogi cymunedau a gwasanaethau ledled Cymru yn chwarae rôl allweddol o ran gwariant ataliol a threchu tlodi hefyd.

Mae'r toriadau yn y gyllideb gyffredinol yn golygu bod lleihad sylweddol yn y gyllideb hon yn anochel.  Fodd bynnag, yn unol â hyn, rydym wedi ceisio lleihau'r effaith ar Awdurdodau Lleol i'r eithaf a diogelu gwasanaethau rheng flaen er mwyn cyfyngu'r effaith ar gydraddoldeb yn lleol.  Fel rhan o hyn, rydym wedi adolygu'n feirniadol ein rhaglenni eraill, annog camau i ymestyn grantiau penodol i mewn i'r grant cynnal refeniw er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd, lleihau biwrocratiaeth drwy systemau cynllunio integredig unigol, sicrhau bod y cyfrifoldebau newydd a osodwyd ar Awdurdodau Lleol yn cael eu hariannu'n briodol, gan gynnwys y rhai sy'n codi o'r rhaglen ddeddfwriaethol, a rhoi cymorth i drawsnewid a gwella gwasanaethau.

O ran **Cyrhaeddiad Addysgol**, rydym bob amser wedi dweud bod diogelu gwariant rheng flaen mewn ysgolion yn flaenoriaeth o hyd ac yn y Gyllideb Ddrafft hon, rydym yn parhau i ddiogelu cyllid ysgolion ar lefel sydd 1% yn uwch na'r newidiadau i DEL Cymru.  Gyda'i gilydd, mae hyn yn golygu ein bod yn darparu £14m ychwanegol ar gyfer ysgolion yn 2015-16.

Rydym yn ymrwymedig o hyd i wneud popeth o fewn ein gallu i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen, yn enwedig os ydym yn gwybod bod cysylltiadau pwysig rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.  Yn y cyd-destun hwn, yn ogystal â'r diogelwch rydym wedi'i roi i gyllid iechyd, dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant hwn rydym hefyd wedi ceisio cysgodi awdurdodau lleol rhag effaith lawn toriadau Llywodraeth y DU i'n Cyllideb gyffredinol.  Er bod y gostyngiadau cronnol i'n Cyllideb yn golygu na allwn barhau i roi'r un faint o arian i bopeth, rydym wedi cydnabod pwysigrwydd **gwasanaethau cymdeithasol** i'r gwasanaeth iechyd.  Rydym wedi gwrando ar bryderon llywodraeth leol yng Nghymru ac rydym yn buddsoddi £10m arall yn 2015-16 fel ffordd o gydnabod y pwysau sy'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Rydym yn dyrannu cyfanswm o £4.292bn i'r Cam Gweithredu **Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol** yn 2015-16, sy'n darparu cyllid refeniw heb ei neilltuo i Awdurdodau Unedol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu er mwyn iddynt gyflawni eu swyddogaethau a'u dyletswyddau craidd.  Er bod hwn yn setliad anodd i Lywodraeth Leol, mae'n dilyn sawl blwyddyn o sefydlogrwydd cyllidebol pan aeth Llywodraeth Cymru ati i annog a helpu Llywodraeth Leol i fuddsoddi arian mewn camau i drawsnewid gwasanaethau er mwyn paratoi ar gyfer setliadau anodd yn y dyfodol.

Yn unol â hyn, rydym yn dyrannu £34.1m drwy'r **Cam Gweithredu Gwella Llywodraeth Leol** er mwyn cefnogi her, tryloywder ac atebolrwydd ym mhenderfyniadau Awdurdodau Lleol ac er mwyn asesu, cefnogi a meithrin gallu corfforaethol a chymell Awdurdodau Lleol i wella'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau'n well.  Mae'r gwaith hwn yn ategu ein pwyslais ar atal drwy annog Awdurdodau Lleol i ystyried ffyrdd mwy effeithlon ac effeithiol o ddarparu

gwasanaethau, yn ogystal â'u cymell i wneud gwelliannau er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol.

Er bod y symiau hyn yn llai na'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2015-16, caiff y gostyngiadau eu rheoli drwy asesu a chefnogi gwelliannau mewn ffordd fwy effeithlon a phenodol a thrwy gydweithio mwy â Llywodraeth Leol. Bydd y rhaglenni hyn hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at ein buddsoddiad o ran Cefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig.

Er bod swm y cyllid a ddyrannwyd i helpu i **ddylunio a darparu gwasanaethau** wedi lleihau, rydym wedi cadw cyfran sylweddol ohono er mwyn helpu i ddiwygio'r ffordd rydym yn meddwl am wasanaethau cyhoeddus ac yn eu darparu er mwyn diwallu anghenion pobl Cymru nawr ac yn y dyfodol. Un o themâu craidd y rhaglen waith hon yw cefnogi'r newid i ddulliau ataliol drwy brosiectau ar ymyriadau cynharach (plant coll; cam-drin domestig); a gwasanaethau cydlynol (e.e. galluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol am gyhyd â phosibl neu fabwysiadu dulliau o weithio fel tîm o amgylch y teulu). Mae'r prosiectau hyn yn nodi ac yn rhannu arfer gorau ar gydgysylltu gwasanaethau drwy grwpiau arwain cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae hyn hefyd yn cysylltu â'r agenda trechu tlodi - yn enwedig o ran darparu gwasanaethau cydlynol i bobl ifanc sy'n NEET (sy'n flaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi).

Cam-drin Domestig

Yn 2015-16, rydym yn dyrannu £4.1m o arian adnoddau ac £1m o arian cyfalaf i'r Cam Gweithredu Cam-drin Domestig er mwyn helpu dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol drwy roi cyllid i sefydliadau statudol a sefydliadau yn y trydydd sector ddarparu gwasanaethau i ddioddefwyr a chodi ymwybyddiaeth. Mae hyn yn gynnydd o gymharu â chynlluniau dangosol 2015-16 a bydd yn helpu'r gwaith o roi'r Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) ar waith. Bydd y cynnydd cyfalaf o £0.3m i £1m hefyd yn darparu cymorth ar gyfer amrywiaeth o waith cyfalaf a fydd yn helpu i wella seilwaith gwasanaethau ledled Cymru gan olygu y bydd gan ddioddefwyr fynediad gwell i'r gwasanaethau hanfodol hyn.

Cyfiawnder Ieuenctid

Rydym yn cadw'r dyraniad cyllidebol o £5.2m ar gyfer y Cam Gweithredu Cyfiawnder Ieuenctid yn 2015-16 er mwyn cefnogi amrywiaeth o fentrau sy'n ceisio atal a lleihau troseddau ieuenctid, a hynny'n bennaf drwy'r Gronfa Atal Troseddau Ieuenctid a gaiff ei hegluro'n fanylach yn Adrannau 5 a 6 sy'n edrych ar ein polisïau allweddol a'n gwariant ataliol.

Gwasanaethau Tân ac Achub

Yn 2015-16, rydym yn dyrannu £1m o arian adnoddau a £0.7m o arian cyfalaf drwy Gam Gweithredu Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub er mwyn cefnogi gweithgarwch ataliol ym maes tân a diogelwch ar y ffyrdd fel Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref, mentrau ieuenctid, fel Phoenix a Troseddau a Chanlyniadau, lleihau tanau bwriadol a

diogelwch ar y ffyrdd. Nod y buddsoddiad hwn, sy'n cyfrannu at Gefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig, yw ceisio lleihau nifer yr achosion o dân a digwyddiadau y mae'n rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub ymateb iddynt drwy roi ymyriadau, cyngor a chyfarpar ataliol ar waith a'u cefnogi.

Er bod y gyllideb hon yn llai, mae'r gyllideb ddiwygiedig wedi'i dyrannu yng nghyd-destun lleihad yn nifer yr achosion cyffredinol o danau damweiniol a bwriadol. Yn achos tanau bwriadol yn benodol, mae data perfformiad yn dangos bod nifer y tanau bwriadol, galwadau ffug, galwadau maleisus gan bobl ifanc ac ymosodiadau ar dimau tân wedi lleihau. Mae gan Awdurdodau Tân ac Achub ddyletswydd statudol hefyd i hyrwyddo diogelwch tân yn eu hardal, gan gynnwys darparu gwybodaeth a chyngor, ac wrth reoli'r gyllideb ddiwygiedig hon byddwn yn ystyried sut i ganolbwyntio ar yr ymyriadau mwyaf effeithiol a'r cydbwysedd rhwng gweithgarwch ataliol ac ymatebol.

<u>Arolygiaethau</u>

Yn dilyn rhai toriadau dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r holl Arolygiaethau yn cael yr un faint o arian ac a gawsant yng nghyllideb y llynedd. Gwnaed hyn gan ystyried y pwysau a'r disgwyliadau cynyddol sy'n wynebu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Estyn. Bydd y cyllid y bydd ei angen ar bob arolygiaeth yn y dyfodol yn parhau i gael ei adolygu yng ngoleuni unrhyw adroddiadau perthnasol a gyhoeddir a rhwymedigaethau deddfwriaethol.

## 5. Polisïau Allweddol

<u>Llywodraeth Leol</u>

Rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â Llywodraeth Leol ynglŷn â setliad 2015-16 ac rydym wedi rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl i Awdurdodau, mor gynnar â phosibl, heb ragfynegi'r Gyllideb Ddrafft a gyhoeddir nac ystyriaeth ffurfiol y Cynulliad ohoni.

Ym mis Gorffennaf 2014 ymatebodd Llywodraeth Cymru i adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Nodir ein hymateb cychwynnol i'r Comisiwn yn y papur *Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Pobl Cymru* a'r Papur Gwyn, *Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Diwygio Llywodraeth Leol* a gyhoeddwyd ar 8 Gorffennaf 2014. Mae'r papur cyntaf yn nodi ein hymateb i argymhellion amrywiol y Comisiwn ac mae'r ail bapur yn cynnwys ein cynigion penodol ar Lywodraeth Leol, pa fath o ddiwygiadau sydd eu hangen a sut y bydd hynny'n digwydd.

Yn benodol, mae'r Papur Gwyn yn nodi cyfres eang o gynigion i ddiwygio llywodraeth leol drwy atgyfnerthu democratiaeth, gwella perfformiad a meithrin cydberthnasau cryfach â chymunedau ac mae'n nodi cynigion ar gyfer cyfres o gamau i uno Awdurdodau Lleol. Daw'r

ymgynghoriad ar y Papur Gwyn i ben ar 1 Hydref 2014 ac rwy'n bwriadu cyhoeddi mwy o gynigion yn ystod yr hydref.

Mae'r gost bosibl o uno Awdurdodau Lleol wedi denu cryn dipyn o sylw ers i'r Comisiwn gyhoeddi ei adroddiad. Deallwn hyn ac mae'r Comisiwn a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi llunio amcangyfrifon gwahanol iawn o'r costau posibl, y byddwn yn dychwelyd atynt isod. Fodd bynnag, mae'n hanfodol gosod unrhyw oblygiadau ariannol yn eu cyd-destun.

Yn gyntaf, mae'r Comisiwn yn egluro'n glir y pwysau ariannol difrifol ac anghynaliadwy sy'n wynebu ein gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r pwysau hyn yn debygol o barhau am y degawd nesaf o leiaf, a bydd y galw am rai gwasanaethau yn cynyddu. Yn wyneb yr heriau hyn, ni allwn wneud dim byd. Bydd costau'n cynyddu beth bynnag wrth i wasanaethau ddechrau gwegian o dan y straen. Ni allwn ychwaith fforddio aros hyd nes bod hinsawdd ariannol fwy ffafriol yn dychwelyd cyn inni weithredu.

Yn ail, mae'r pwysau ariannol difrifol hefyd yn golygu nad yw'n realistig disgwyl i Lywodraeth Cymru ddarparu chwistrelliadau mawr o arian i dalu am gost yr uno fel y mae Llywodraeth ganolog wedi'i wneud yn aml yn y gorffennol yn ystod camau i ailstrwythuro Llywodraeth Leol. Un o'r egwyddorion a fydd yn sail i'r camau uno hyn fydd eu rheoli mewn ffordd a fydd yn sicrhau'r budd mwyaf ac yn lleihau costau i'r eithaf.

Yn drydydd, rydym bob amser wedi pwysleisio nad punnoedd a cheiniogau yn unig sy'n bwysig. Y nod yw sicrhau perfformiad gwell, llywodraethu gwell a democratiaeth gryfach, yn ogystal â gwneud defnydd gwell o adnoddau cyfyngedig. Mae effeithlonrwydd a gwerth am arian yn bwysig iawn, ond nid dyma'r unig ffactorau y byddwn yn eu defnyddio i fesur llwyddiant.

Amcangyfrifodd CLlLC, ar sail y gwaith a gomisiynodd gan Deloittes, y bydd y camau uno yn costio rhwng £200 miliwn a £400 miliwn, gydag arbedion blynyddol rheolaidd o rhwng £92 miliwn a £100 miliwn. Archwiliodd y Comisiwn ffigurau CLlLC a daeth i'r casgliad ei bod wedi goramcangyfrif y costau a'r arbedion posibl am nifer o resymau. Awgrymodd y Comisiwn y gallai'r costau y byddai'n rhaid eu talu ymlaen llaw amrywio rhwng £80 miliwn a £100 miliwn, gydag arbedion rheolaidd o £60 miliwn i £80 miliwn y flwyddyn.

Nid yw'r amrywiadau sylweddol yn y ffigurau hyn yn syndod: mae'r amcangyfrifon costau yn dibynnu ar y tybiaethau a wnaed pan luniwyd yr amcangyfrifon hynny ond gan nad oes unrhyw gynsail i'r rhaglen uno rydym yn ei chynnig, nid yw'n bosibl dweud yn bendant p'un a yw'r naill amcangyfrif neu'r llall yn briodol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen asesu'r costau a'r buddiannau posibl i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, a byddwn yn llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft i gyd-fynd â'r ail Fil Llywodraeth Leol rydym yn bwriadu ei gyhoeddi ar ffurf drafft ac ymgynghori arno yn ystod hydref 2015.

Yn gynharach yn 2014, gofynnodd Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth i bob Awdurdod am wybodaeth am y ffordd yr oedd wedi mynd ati i ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd wrth bennu ei gyllideb ar gyfer 2014-15. Mae'r ymatebion wedi cael eu dadansoddi ac mae prosbectws o'r enghreifftiau gorau wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a chaiff ei hyrwyddo i Awdurdodau ledled Cymru.

Hefyd, cyhoeddodd y Gweinidog ddiweddariadau am Berfformiad Gwasanaethau Awdurdodau Lleol a'r ddogfen Comparison of Regional Collaborative Areas. Mae'r cyhoeddiadau yn dadansoddi agweddau ar wariant yn ogystal â pherfformiad.

Mae'r Is-grŵp Dosbarthu, sef gweithgor sy'n cefnogi Is-grŵp Cyllid Partneriaeth Cyngor Partneriaeth Cymru, wedi parhau i weithio ar fanylion y fformiwla i ddosbarthu cyllid rhwng y 22 o Awdurdodau Unedol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y dangosyddion a ddefnyddir yn gyfredol ac yn rhoi'r mesurau gorau posibl o angen cymharol.

Adolygiad o Hyblygrwydd Cyllido

Mae'r adolygiad hwn wedi ystyried yr opsiynau i roi mwy o hyblygrwydd i Awdurdodau Lleol o ran y ffordd y maent yn defnyddio'r adnoddau a ddarperir iddynt gan Lywodraeth Cymru. Mae wedi canolbwyntio'n benodol ar y posibilrwydd o leihau cyfran y cyllid a ddarperir at ddibenion penodol yn hytrach nag fel cyllid cyffredinol y gall Awdurdodau Lleol ei ddefnyddio at unrhyw ddiben o fewn y pwerau sydd ar gael iddynt.

Cafodd pob grant perthnasol yn fy MEG fy hun ei ddadneilltuo ar gyfer 2014-15. Hefyd, ymgysylltwyd yn helaeth â chyd-Weinidogion, y mae nifer ohonynt yn adolygu'r grantiau yn eu portffolios eu hunain, ac rydym wedi annog Llywodraeth Leol yn gyson i ystyried ffyrdd o roi sicrwydd y byddai perfformiad yn gwella pe bai cyllid yn cael ei ddadneilltuo. Rydym hefyd wedi gwahodd Llywodraeth Leol i gyflwyno cynigion ar gyfer ffyrdd eraill posibl o ddarparu hyblygrwydd.

Craffu mewn Llywodraeth Leol

Rwyf wedi gwneud darpariaeth i barhau i gefnogi'r Rhaglen Datblygu Craffu. Mae'r rhaglen hon yn helpu i ddatblygu sgiliau craffu o fewn Awdurdodau Lleol yn uniongyrchol ac yn noddi gwaith y Ganolfan Craffu Cyhoeddus. Ym mis Mehefin 2014, lansiodd y Ganolfan 'Raising the Stakes: Financial Scrutiny in Challenging Times' sy'n rhoi canllawiau i Awdurdodau ar rôl craffu wrth wneud penderfyniadau cyllidebol effeithiol, gan gynnwys ystyried effeithiau.

Tryloywder mewn Llywodraeth Leol

O dan brosiect ESF o dan y Thema Generig Ymgysylltu â Dinasyddion, mae dros 100 o ymarferwyr wedi cael hyfforddiant achrededig ar ymgysylltu â'r cyhoedd, gan gynnwys Swyddogion Creu'r Cysylltiadau yn y Trydydd Sector, rheolwyr prosiectau cymorth a chyflawni byrddau gwasanaethau lleol. Mae hyn wedi eu galluogi i ddefnyddio'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, sydd wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth

Cymru, er mwyn ymgysylltu'n well â'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid ehangach wrth wneud a gwerthuso gwelliannau i wasanaethau a chefnogi gwaith Craffu mewn rhai meysydd. Gellir adeiladu ar hyn yn 2015-16 er mwyn cefnogi'r agweddau ymgysylltu ar Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Bydd y cyllid a roddir i Un Llais Cymru yn helpu i gyflwyno'r gofyniad yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 bod yn rhaid i gynghorau cymuned gyhoeddi gwybodaeth ar y Rhyngrwyd. Byddwn hefyd yn ceisio hwyluso un contract i ddarparu gwasanaethau gwe-ffrydio i lywodraeth leol er mwyn helpu i ddarlledu cyfarfodydd cynghorau.

Fel rhan o'n rhaglen Diwygio Llywodraeth Leol, byddwn yn ymgynghori ar ffyrdd y gallwn annog llywodraeth leol i fod yn fwy agored, tryloyw ac atebol.

Byddwn yn parhau i ddarparu cyllid o gyllideb Meithrin Democratiaeth Leol er mwyn gweithredu argymhellion adroddiad y Grŵp Arbenigol ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, gyda'r nod o sicrhau bod dewis amrywiol o ymgeiswyr yn sefyll yr etholiadau llywodraeth leol yn 2017.

Diogelwch Cymunedol

Rydym yn diogelu'r cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol (SCCau) gan ddyrannu £16.8m yn 2015-16 er mwyn cynnal ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu i sicrhau bod 500 o SCCau yn cael eu recriwtio.  Mae'r buddsoddiad hwn yn gwneud cyfraniad pwysig at wariant ataliol gan fod SCCau yn gweithio gydag ysgolion cynradd lleol ar atal troseddau; yn rhoi sicrwydd i grwpiau dros 60 oed; yn helpu busnesau lleol i fynd i'r afael â dwyn, yn ogystal â chymryd rhan mewn ymarferion chwilio, atafaelu alcohol a thybaco a gwneud ymholiadau o dŷ i dŷ ar gyfer ymchwiliadau troseddol.

Caiff ein hymrwymiad i wella bywydau plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed ei ddangos gan ein penderfyniad i gadw'r £4.9 miliwn ar gyfer y Gronfa Atal Troseddau Ieuenctid yn 2015-16. Mae'r Gronfa yn cefnogi prosiectau sy'n ceisio atal plant a phobl ifanc rhag ymhél â throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r Gronfa wedi cyfrannu at gyflawniadau'r system cyfiawnder ieuenctid dros y blynyddoedd diwethaf ac mae nifer y bobl ifanc sy'n ymuno â'r system am y tro cyntaf yn lleihau. Rhwng blynyddoedd ariannol 2012/13 a 2013/14 bu gostyngiad o 26.5% yn nifer y bobl ifanc a ymunodd â'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf yng Nghymru[1]. Mae nifer y plant a'r bobl ifanc yn y ddalfa yn parhau i ostwng ac ym mis Mehefin 2014, roedd 47 o bobl ifanc o Gymru yn y ddalfa.[2] Dyrennir y cyllid gan ddefnyddio fformiwla cyllido a chaiff ei ddosbarthu i Dimau Troseddau Ieuenctid neu Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru er mwyn cefnogi prosiectau lleol a rhanbarthol. Bydd diogelu'r Gronfa yn helpu i gyflawni Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf, sef

[1] *"Ffigurau dros dro yw'r rhain, caiff ffigurau terfynol 2013/14 a 2014/15 eu diweddaru yn y cyhoeddiad blynyddol perthnasol ar Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid".*

[2] "*Mae'r ffigurau hyn yn rhoi darlun misol o'r boblogaeth yn y ddalfa, a chânt eu casglu ar ddydd Gwener diwethaf y mis neu ddydd Gwener cyntaf y mis canlynol, yn dibynnu pa un sydd agosaf at ddiwedd y mis mewn gwirionedd"*

strategaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i wella gwasanaethau i bobl ifanc yng Nghymru sy'n wynebu risg o ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid neu sydd eisoes yn rhan o'r system. Cafodd y strategaeth ei lansio a'i chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2014 ac mae'n cynnal ffordd hir sefydlog Llywodraeth Cymru o ymdrin â chyfiawnder ieuenctid, sef trin y rhai sy'n ymddwyn mewn ffordd droseddol, neu sydd mewn perygl o droseddu, fel plant a phobl ifanc yn gyntaf. Mae hyn yn cyd-fynd â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a dyletswyddau Gweinidogion Cymru o dan Fesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 i gydymffurfio â'r Confensiwn.

<u>Cydraddoldeb, Cynaliadwyedd ac Ystyriaeth i'r Gymraeg</u>

Mae pob Awdurdod Lleol yn gorff annibynnol a gaiff ei ethol drwy ddulliau democrataidd, sy'n atebol i'w bleidleiswyr am y penderfyniadau a wna. Mae gan awdurdodau gyfres o ddyletswyddau a swyddogaethau statudol, a phwerau i ddarparu ystod o swyddogaethau a gwasanaethau eraill. Maent yn darparu amrywiaeth o wasanaethau lleol y mae llawer ohonynt, yn eu hanfod, wedi'u targedu at bobl â nodweddion gwarchodedig ac maent yn gwneud cyfraniad mawr i drechu tlodi. Er enghraifft, mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswyddau statudol i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a darparu gwasanaethau addysg. Mae ganddynt ddyletswyddau hefyd i ddarparu llawer o wasanaethau eraill, yn ogystal â dyletswydd i hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol eu cymunedau. Nid yw'n bosibl inni nodi'n fanwl effaith y lleihad yn y cyllid refeniw cyffredinol ar gydraddoldeb ar gyfer holl wasanaethau'r Awdurdodau Lleol. Y rheswm am hyn yw y bydd yr effaith yn amrywio'n lleol o un Awdurdod i'r llall yn dibynnu ar y penderfyniadau a wnânt dros y misoedd nesaf ar eu cyllidebau unigol. Er enghraifft, efallai y bydd rhai Awdurdodau yn ymuno ag eraill i ddarparu gwasanaethau, efallai y bydd rhai yn adolygu eu polisïau codi tâl, efallai y bydd rhai yn defnyddio cronfeydd wrth gefn, efallai y bydd rhai yn ystyried rhoi gwasanaethau ar gontractau allanol, ac efallai y bydd eraill yn ystyried codi'r Dreth Gyngor er mwyn lliniaru a rheoli'r toriadau hyn. Bydd pob Awdurdod yn gwneud penderfyniadau ar sail anghenion a blaenoriaethau lleol ac mae'n rhaid iddo asesu effaith ei gynigion a'i benderfyniadau ar grwpiau gwarchodedig ac mewn perthynas â'i swyddogaethau ehangach.

Dros dair blynedd gyntaf cyfnod Adolygiad o Wariant 2010, cafodd Llywodraeth Leol yng Nghymru ei diogelu rhag y toriadau gwaethaf i arian cyhoeddus. Wrth roi'r diogelwch hwn, gwnaethom egluro mai'r bwriad oedd galluogi Llywodraeth Leol i ailystyried a diwygio gwasanaethau er mwyn paratoi ar gyfer yr heriau i ddod. Ategwyd hyn gan raglen waith a gafodd ei chyflwyno ar y cyd â phartneriaid eraill o fewn y gwasanaethau cyhoeddus dan nawdd Cyngor Partneriaeth Cymru i annog cydweithredu, arloesedd ac ailddylunio gwasanaethau.

Mae Llywodraeth Leol yng Nghymru wedi parhau i gael mwy o gefnogaeth o gymharu ag Awdurdodau yn Lloegr. Rhwng 2009-10 a 2014-15, mae gwariant y pen yng Nghymru gan lywodraeth leol wedi **cynyddu** 3% yn nhermau arian parod o gymharu â Lloegr, lle mae gwariant y pen wedi **gostwng** 7%. Mae gwariant y pen o'r boblogaeth gan Lywodraeth Leol yng Nghymru tua £327 yn uwch yn 2014-15 nag yn Lloegr.

Mae'r heriau yn anodd ond bydd gwneud penderfyniadau byrdymor, er enghraifft cau canolfannau hamdden neu lyfrgelloedd heb ystyried yr effeithiau tymor hwy ar iechyd a llythrennedd, ond yn arwain at gronni problemau i'r dyfodol ac nid yw'n ffordd gynaliadwy o reoli'r toriadau cyllidebol.

Ochr yn ochr â'r ystyriaethau cyllidebol hyn, rhaid i Awdurdodau Lleol gyflawni eu hasesiadau eu hunain o'r effaith ar gydraddoldeb wrth iddynt fwrw ymlaen â'u proses gyllidebol a disgwyliwn i'r rhain ystyried goblygiadau eu penderfyniadau gwariant arfaethedig yn llawn.

<u>Monitro a Gwerthuso er mwyn Dangos Gwerth am Arian</u>

Mae nifer o bapurau a dadansoddiadau wedi'u datblygu'n benodol mewn perthynas â'r trefniadau ymgysylltu a nodir uchod. Mae dadansoddiadau Llywodraeth Cymru yn cynnwys *Perfformiad Gwasanaethau Awdurdodau Lleol 2012-13*, *Comparison of Regional Collaborative Areas 2014.* Mae adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys *Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru.* Mae'r deunydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Leol yn cynnwys *Local Government Expenditure in Wales: Recent Trends and Future Pressures.*

O fewn y cymorth cyllid i lywodraeth leol, ceir darpariaeth ar gyfer cynlluniau i leihau'r dreth gyngor. Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o drefniadau cymorth y dreth gyngor yn ystod cynlluniau 2013 a 2014. Rhoddodd yr adolygiad hwn ystyriaeth fanwl i nifer o ffynonellau o dystiolaeth am brofiadau ac effeithiau cynlluniau yn 2013-14, gan gynnwys gwaith a wnaed gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'n dadansoddiad ein hunain o ddata a gasglwyd gan bob Awdurdod yng Nghymru.

Bydd gwerthusiadau sy'n mynd rhagddynt o weithgarwch byrddau gwasanaethau lleol a'r Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol yn ychwanegu at y wybodaeth a'r dystiolaeth sydd gennym am ddulliau gweithredu newydd / arfer gorau ac yn darparu mwy o dystiolaeth i ategu tystiolaeth fesuradwy ar gyfer gwaith cynllunio yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub mewn cyfnodau anodd i ddarparu gwasanaethau gwell a mwy effeithlon drwy dargedu adnoddau er mwyn cyflawni canlyniadau gwell a diogelu cymunedau rhag peryglon tân.

Mae Fframwaith "O 2012 Ymlaen" yn rhoi mwy o bwyslais ar wella effeithlonrwydd a gwerth am arian, mae angen i awdurdodau Tân ac Achub gynllunio a dylunio eu gwasanaethau mewn ffordd arloesol ac ystyried y ffyrdd mwyaf effeithiol o ddefnyddio staff er mwyn darparu gwasanaethau rheng flaen a gwasanaethau cymorth.

## 6. Gwariant Ataliol

<u>Llywodraeth Leol</u>

Mae Llywodraeth Leol yn parhau i chwarae rôl bwysig yn y gwaith o drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys yr ymdrech i fuddsoddi mwy mewn dulliau ataliol. Rydym wedi gweithio gydag Awdurdodau Lleol i'w hannog i symud tuag at wariant ataliol, drwy raglen Diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus, a byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth er mwyn helpu Awdurdodau Lleol i reoli eu cyllidebau yn y ffyrdd mwyaf effeithlon ac effeithiol, er mwyn lleihau'r effaith ar y gwasanaethau craidd a ddarperir nawr a lleihau galw yn y dyfodol.

Hefyd, o dan Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus a'r byrddau gwasanaethau lleol, rydym wedi cefnogi gwaith ar ddulliau gweithredu newydd a ffyrdd integredig o weithio er mwyn cefnogi gwaith ataliol. Mae nifer o brosiectau a ariennir o dan y Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol a'r Gronfa Gofal Canolraddol hefyd yn defnyddio dulliau ataliol er mwyn gwella canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau.

Swyddogion Cymorth Cymunedol

Mae cyllid ar gyfer y 500 SCC ychwanegol wedi cael ei ddiogelu fel un o ymrwymiadau "Pump am Ddyfodol Tecach" y Rhaglen Lywodraethu.  Mae'r 500 SCC wedi'u recriwtio ac yn gweithio erbyn hyn ac mae'r cyllid yn golygu y gellir cynnal yr adnodd rheng flaen hwn. Mae gan SCCau rôl hollbwysig i'w chwarae yn eu cymunedau.  Mae SCCau a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn gweithio gydag ysgolion cynradd lleol ar atal troseddau; yn rhoi sicrwydd i grwpiau dros 60 oed; yn helpu busnesau lleol i fynd i'r afael â dwyn, yn ogystal â chymryd rhan mewn ymarferion chwilio, atafaelu alcohol a thybaco a gwneud ymholiadau o dŷ i dŷ ar gyfer ymchwiliadau troseddol.  Maent hefyd yn gweithio mewn Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, gan gefnogi'r agenda trechu tlodi. Mae'r 500 SCC ychwanegol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn cyfrannu'n sylweddol at nifer y swyddogion sy'n gweithio'n uniongyrchol yn y gymuned yng Nghymru.

Rydym wedi comisiynu Sefydliad Gwyddor Heddlu'r Prifysgolion (UPSI) ym Mhrifysgol Caerdydd i arfarnu effaith y 500 SCC ychwanegol ar draws Heddluoedd Cymru a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.  Dechreuodd y prosiect yn ffurfiol ym mis Mawrth 2013 ac mae disgwyl i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2014.  Bydd yn adrodd ar yr effaith y mae'r buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi'i chael ar wneud i gymunedau deimlo'n fwy diogel a mynd i'r afael â chanfyddiadau ynghylch troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cam-drin Domestig

Mae'r cyllidebau Cam-drin Domestig yn gwneud cyfraniad pwysig i'r agenda gwariant ataliol a'r agenda trechu tlodi.  Amcangyfrifir bod cam-drin domestig yn costio tua £826.4m y flwyddyn yng Nghymru ac mae tystiolaeth gan Gweithredu ar y Cyd yn Erbyn Cam-drin Domestig (CAADA) yn awgrymu bod pob £1 a gaiff ei gwario ar wasanaethau cam-drin domestig yn arbed £2.90 i'r pwrs cyhoeddus.  Mae tystiolaeth newydd hefyd yn awgrymu bod dioddefwyr mewn tlodi yn fwy tebygol o ddioddef trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r Grant Gwasanaethau Cam-drin Domestig yn helpu'r bobl hyn sy'n agored i niwed drwy sicrhau bod gwasanaethau ar gael i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu grŵp ethnig neu eu statws cymdeithasol.

Cyfiawnder Ieuenctid

Mae'r Gronfa Atal Troseddau Ieuenctid yn cefnogi prosiectau sy'n ceisio dargyfeirio pobl ifanc oddi wrth droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys prosiectau sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant, hamdden, y celfyddydau, chwaraeon, cyfiawnder adferol a mentrau i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau. Rhaid i bob prosiect geisio atal a lleihau troseddau ieuenctid a sicrhau canlyniadau cydweithredol sy'n cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar draws ystod eang o feysydd â blaenoriaeth cysylltiedig fel tlodi plant, iechyd meddwl, cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau. Bydd atal plant y mae perygl y byddant yn troseddu rhag gwneud hynny a'u cadw allan o'r system gyfiawnder yn helpu i wella eu rhagolygon o ran hyfforddiant a chyflogaeth ac yn lleihau'r risg y byddant yn wynebu tlodi.

Gwasanaethau Tân ac Achub

Wrth asesu effaith y lleihad i'r gyllideb Refeniw a Chyfalaf Diogelwch Tân Cymunedol, mae'n bwysig deall tueddiadau hirdymor o ran nifer yr achosion o dân a'u difrifoldeb ac, felly, waith y gwasanaeth tân. Mae'r dystiolaeth ganlynol yn cefnogi hyn:

- Bu lleihad mawr, parhaus a hirdymor yn nifer yr achosion o danau ledled Cymru. Cafwyd 53% yn llai o danau yn 2013-14 o gymharu â 2005-6.

- Mae data hefyd yn dangos bod lleihad parhaus wedi bod mewn categorïau gwahanol o danau dros y tymor hwy. Mae'r rhain yn cynnwys tanau mewn anheddau a thanau bwriadol. Mae galwadau ffug maleisus hefyd yn lleihau.

- Gwelwyd lleihad tebyg (os nad yn fwy) o ran cyfraddau marwolaethau ac anafusion mewn tanau dros yr un cyfnod.

- Er bod rhai amrywiadau bach, ar y cyfan, mae'r tueddiadau hyn i'w gweld yn y tri gwasanaeth tân yng Nghymru.

Mae tueddiadau tebyg i'w gweld yn Lloegr hefyd. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r gwaith ataliol a wneir gan wasanaethau tân a newidiadau ehangach fel lleihad mewn cyfraddau ysmygu a rheoliadau diogelwch tân llymach (mewn perthynas â deunyddiau adeiladu a dodrefnu, er enghraifft). Ni ellir gwahanu'r ddwy ffactor oddi wrth ei gilydd er mwyn pennu pa mor effeithiol yw gwaith ataliol y gwasanaeth tân neu pa mor effeithiol y mae wedi bod.

O ganlyniad i'r lleihad sylweddol yn nifer yr achosion o dân, mae'r gwasanaethau tân yn canolbwyntio'n gynyddol ar atal tanau, lleihau'r risg o dân a gwella ymwybyddiaeth o dân a

diogelwch tân, yn hytrach nag ymateb i ddigwyddiadau. Hynny yw, gwelir fwyfwy mai gwaith ataliol yw prif fusnes craidd y gwasanaeth, a chaiff ei reoli a'i ariannu yn unol â hynny. Dylid nodi yn y cyd-destun hwn mai dim ond lleihad bach a welwyd yng ngwariant termau real a chapasiti gwasanaethau tân yng Nghymru dros y 10 mlynedd diwethaf.

Hyd yma, defnyddiwyd grantiau Diogelwch Tân Cymunedol i ariannu rhywfaint o'r gwaith ataliol hwn, gan gynnwys gwaith gyda grwpiau sy'n agored i niwed, yn enwedig:

- Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref: darparu cyngor ar ddiogelwch yn y cartref a synwyryddion mwg lle bo hynny'n briodol (gan gynnwys larymau i bobl sy'n drwm eu clyw a chyfarpar ataliol/ymyriadau arbenigol eraill i amddiffyn y rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf)

- Mentrau ieuenctid (Phoenix a Throseddau a Chanlyniadau): lle bydd plant y nodwyd eu bod mewn perygl o droseddu neu sydd wedi troseddu, yn cymryd rhan mewn rhaglen o weithgarwch.

- Lleihau tanau bwriadol: gweithio gydag asiantaethau eraill i dargedu tanau bwriadol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae ymyriadau'n amrywio o bresenoldeb amlwg mewn ardaloedd lle gwyddys bod tanau'n cael eu cynnau'n fwriadol i addysg a chamau gweithredu gan yr heddlu.

- Diogelwch ar y Ffyrdd: Gweithio gydag asiantaethau eraill fel Awdurdodau Lleol, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Ambiwlans i leihau gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y rhai sy'n wynebu perygl (y grŵp oedran 17 i 24 oed fel arfer). Mae'r ymyriad diogelwch ar y ffyrdd hwn wedi'i dargedu at yrwyr ifanc a'r hyn sy'n achosi gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a'u heffaith.

## 7. Darpariaeth ar gyfer Deddfwriaeth

| Deddfwriaeth | Cam gweithredu/SPA | Adnoddau/Cyfalaf | £ |
|---|---|---|---:|
| Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) | Cam-drin Domestig | Adnoddau | 383,100 |
| Deddf Llywodraeth Leol (Is-ddeddfau) 2012 | | | 0 |
| Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) 2013 | Meithrin Democratiaeth Leol | Adnoddau | 8,000 |
| Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Rhif 1 (teitl dros dro) | Deddfwriaeth a Thrawsnewid | Adnoddau | 0 |
| Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Rhif 2 (teitl | | | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| dros dro) | | | |

Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Rhif 1

Bydd y Bil, a gyflwynir ym mis Ionawr 2015, yn darparu'r pwerau sydd eu hangen i alluogi a hwyluso gwaith paratoi ar gyfer rhaglen i uno Awdurdodau Lleol, ond ni fydd yn cynnwys cynigion uno penodol. Os caiff ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol, disgwylir i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol yn ystod hydref 2015. Bydd y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ystyried cynigion gan Awdurdodau Lleol sy'n awyddus i uno'n gynnar. Bydd yn galluogi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i ddechrau gweithio ar drefniadau etholaethol a chydnabyddiaeth ar gyfer yr awdurdodau newydd arfaethedig. Bydd yn cynnwys pwerau a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i Awdurdodau sefydlu Cydbwyllgorau Pontio er mwyn paratoi ar gyfer uno a phwerau a fydd yn galluogi Gweinidogion i weithredu er mwyn atal awdurdodau presennol neu gysgodol rhag gwneud unrhyw beth a allai fod yn niweidiol i'r awdurdodau unedig newydd. Mae effaith ariannol y Bil yn 2015-16 yn deillio o'r ffaith y rhoddir arian i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol ddechrau gweithio ar adolygiadau o drefniadau etholaethol ar gyfer prif ardaloedd newydd arfaethedig.

Rydym yn ymrwymedig i gefnogi Awdurdodau sy'n dymuno cymryd rhan yn y broses uno gynnar. Fel rhan o hyn, byddwn yn adolygu amcangyfrifon cychwynnol y cynigion a nodir yn natganiadau o ddiddordeb yr Awdurdodau Lleol a'r costau a'r buddiannau yn yr achosion manylach dros newid a fydd yn dilyn, ac yn eu hystyried o fewn ein cylch cynllunio a dyrannu'r gyllideb.

Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Rhif 2

Y Bil hwn yw'r prif gyfrwng deddfwriaethol dros uno a diwygio Awdurdodau Lleol dan Raglen Diwygio Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru. Caiff Bil drafft ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori yn ystod hydref 2015, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ôl etholiadau 2016. Fel y cyfryw, ni fydd y Bil yn cael unrhyw effaith ariannol yn 2015-16 ond byddwn yn llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft i gyd-fynd â'r Bil drafft.

**PRIF GRŴP GWARIANT (MEG) LLYWODRAETH LEOL** — **ATODIAD 1**

**CYLLIDEB ADNODDAU - Terfyn Gwariant Adrannol** — **£000**

| SPA | Camau gweithredu | Teitl BEL | Cyllideb Atodol 2014-15 | Cyllideb Ddangosol 2015-16 | Addasiadau | Cyllideb Ddrafft 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllid Llywodraeth Leol** | Cymorth Cyllid i Lywodraeth Leol | Grant Swyddogion Cymorth Cymunedol | 16,787 | 16,787 | | 16,787 |
| | | Cyllid Refeniw Awdurdodau Unedol (RSG a NDR) | 4,270,889 | 4,175,403 | -53,682 | 4,121,721 |
| | | Cyllid Refeniw Cyffredinol yr Heddlu (RSG a NDR) | 140,000 | 136,000 | | 136,000 |
| | | Canlyniadau Refeniw PFI Llywodraeth Leol | 3,919 | 33,599 | -29,812 | 3,787 |
| | | Trawsnewid a Deddfwriaeth | 3,200 | 3,400 | -455 | 2,945 |
| | | Y Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol | 5,174 | 0 | 5,174 | 5,174 |
| | | Ardrethi Annomestig: Costau Casglu | 5,172 | 5,172 | | 5,172 |
| | | Cynllun Cymorth Ariannol Brys | 1 | 1 | | 1 |
| | | Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Grant Pensiynwyr | 0 | 4,000 | -4,000 | 0 |
| | | **CYFANSWM GWEITHREDU** | **4,445,142** | **4,374,362** | **-82,775** | **4,291,587** |
| | Gwasanaethau Prisio | Asiantaeth y Swyddfa Brisio | 8,561 | 8,861 | | 8,561 |
| | | Tribiwnlys Prisio Cymru | 1,232 | 1,232 | -32 | 1,200 |
| | | **CYFANSWM GWEITHREDU** | **9,793** | **9,793** | **-32** | **9,761** |
| | **CYFANSWM SPA** | | **4,454,935** | **4,384,155** | **-82,807** | **4,301,348** |
| **Cymunedau Mwy Diogel** | Gwydnwch Gwasanaethau Tân ac Achub | Gwydnwch Gwasanaethau Tân ac Achub | 5,027 | 5,027 | -250 | 4,777 |
| | | **CYFANSWM GWEITHREDU** | **5,027** | **5,027** | **-250** | **4,777** |
| | Fframwaith Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub | Diogelwch Tân Cymunedol | 2,138 | 2,025 | -995 | 1,030 |
| | | **CYFANSWM GWEITHREDU** | **2,138** | **2,025** | **-995** | **1,030** |
| | Cam-drin Domestig | Grant Gwasanaethau Trais Domestig | 4,000 | 4,000 | 100 | 4,100 |
| | | **CYFANSWM GWEITHREDU** | **4,000** | **4,000** | **100** | **4,100** |
| | Cyfiawnder Ieuenctid | Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid | 5,200 | 5,200 | | 5,200 |
| | | **CYFANSWM GWEITHREDU** | **5,200** | **5,200** | | **5,200** |
| | **CYFANSWM SPA** | | **16,365** | **16,252** | **-1,145** | **15,107** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella Gwasanaethau, Cydweithredu a Democratiaeth** | Meithrin Democratiaeth Leol | Trefniadau Craffu a Safonau Llywodraeth Leol | 301 | 301 | | 301 |
| | | Treuliau Cyffredinol y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol | 520 | 520 | | 520 |
| | | **CYFANSWM GWEITHREDU** | **821** | **821** | | **821** |
| | Gwelliannau Llywodraeth Leol | Grantiau Gwella Canlyniadau | 31,288 | 31,288 | -38 | 31,250 |
| | | Gwella ac Archwilio | 2,766 | 2,765 | -524 | 2,241 |
| | | Ymchwil a Gwerthuso | 800 | 800 | -200 | 600 |
| | | **CYFANSWM GWEITHREDU** | **34,853** | **34,853** | **-762** | **34,091** |
| | Cronfa Gofal Canolraddol | Cronfa Gofal Canolraddol | 35,000 | 0 | 0 | 0 |
| | | **CYFANSWM GWEITHREDU** | **35,000** | **0** | **0** | **0** |
| | Cefnogi Cydweithredu a Diwygio | Moeseg a Threfniadau Rheoleiddio Llywodraeth Leol | 160 | 160 | | 160 |
| | | Byrddau Gwasanaethau Lleol a Phartneriaethau | 430 | 430 | | 430 |
| | | Byrddau Gwasanaethau Lleol a Phartneriaethau - Prosiectau ESF | 1,119 | 150 | | 150 |
| | | Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus | 1,500 | 1,500 | -1,065 | 435 |
| | | Fframwaith Rheoleiddio ac Ymgysylltu | 194 | 194 | | 194 |
| | | **CYFANSWM GWEITHREDU** | **3,403** | **2,434** | **-1,065** | **1,369** |
| | **CYFANSWM SPA** | | **74,077** | **38,108** | **-1,827** | **36,281** |
| **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol** | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol | **14,461** | 14,461 | | **14,461** |
| | **Cyfanswm SPA** | | **14,461** | **14,461** | | **14,461** |
| **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | **2,591** | 2,591 | | **2,591** |
| | **Cyfanswm SPA** | | **2,591** | **2,591** | | **2,591** |
| **Estyn** | Estyn | Gwariant Rhaglen Estyn | **11,664** | 11,664 | | **11,664** |
| | **Cyfanswm SPA** | | **11,664** | **11,664** | | **11,664** |
| | | | | | | |
| | **Cyfanswm Adnoddau - Llywodraeth Leol** | | **4,574,093** | **4,467,231** | **-85,779** | **4,381,452** |

| | **CYLLIDEB GYFALAF - Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **Camau gweithredu** | **Teitl BEL** | **Cyllideb Atodol 2014-15** | **Cyllideb Ddangosol 2015-16** | **Addasiadau** | **Cyllideb Ddrafft 2015-16** |
| **Cyllid Llywodraeth Leol** | Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol | Cyllid Cyfalaf Cyffredinol | 20,000 | 20,000 | | 20,000 |
| | **CYFANSWM SPA** | | **20,000** | **20,000** | | **20,000** |
| **Cymunedau Mwy Diogel** | Gwydnwch Gwasanaethau Tân ac Achub | Gwydnwch Gwasanaethau Tân ac Achub | 1,000 | 1,000 | | 1,000 |
| | | **CYFANSWM GWEITHREDU** | **1,000** | **1,000** | | **1,000** |
| | Fframwaith Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub | Diogelwch Tân Cymunedol | 1,339 | 1,339 | -669 | 670 |
| | | **CYFANSWM GWEITHREDU** | **1,339** | **1,339** | **-669** | **670** |
| | Cam-drin Domestig | Grant Gwasanaethau Trais Domestig | 300 | 300 | 669 | 969 |
| | | **CYFANSWM GWEITHREDU** | **300** | **300** | **669** | **969** |
| | **CYFANSWM SPA** | | **2,639** | **2,639** | **0** | **2,639** |
| **Estyn** | Estyn | Estyn - Gwariant Rhaglenni | 281 | 281 | | 281 |
| | **CYFANSWM SPA** | | **281** | **281** | | **281** |
| | **Cyfanswm Cyfalaf - Llywodraeth Leol** | | **22,920** | **22,920** | **0** | **22,920** |

| **Llywodraeth Leol - Crynodeb** | | **Cyllideb Atodol 2014-15** | **Cyllideb Ddangosol 2015-16** | **Addasiadau** | **Cyllideb Ddrafft 2015-16** |
|---|---|---|---|---|---|
| DEL Refeniw | | 4,574,093 | 4,467,231 | -85,779 | 4,381,452 |
| DEL Cyfalaf | | 22,920 | 22,920 | | 22,920 |
| **Cyfanswm DEL - Llywodraeth Leol** | | **4,597,013** | **4,490,151** | **-85,779** | **4,404,372** |

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

**Dyddiad:** **9 Hydref 2014**

**Amser:** **13.00am i 14.30pm**

**Teitl:** **Papur tystiolaeth ar y Gyllideb Ddrafft: 2015-16: Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi sylwadau a gwybodaeth i'r Pwyllgor am y portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi (CTP) a chynigion ar gyfer cyllidebau'r rhaglenni yn y dyfodol a amlinellwyd yn y Gyllideb Ddrafft a gyhoeddwyd ar 30 Medi 2014. Mae'r cynigion hyn yn adlewyrchu maint y portffolio ar hyn o bryd, gan gynnwys Tai ac Adfywio.

Yn unol â chais y Pwyllgor, mae Atodiad A yn rhestru ffigurau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer Prif Grŵp Gwariant (MEG) CTP, fesul Cam Gweithredu a fesul Llinell Wariant pob Cam Gweithredu yn y Gyllideb

## 2. Cefndir

O gymharu â'r cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2014-15, mae cyfanswm dyraniad DEL ar gyfer Prif Grŵp Gwariant CTP wedi cynyddu £20.54m yn 2015-16 i £737.444m yn sgil newidiadau ym Mheirianwaith y Llywodraeth a gyflwynwyd ym mis Medi 2014.

Ceir gostyngiad yn y DEL Adnoddau o £11.46m yn 2015-16 i £342.024m. Ceir cynnydd yn y gyllideb cyfalaf o £32m yn 2015-16 i £395.42m i gefnogi'r blaenoriaethau yng Nghynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

Dengys y tablau canlynol yr effaith gyffredinol ar gyllideb sylfaenol Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) CTP.

**Tablau Ariannol Cryno:**

| **MEG CTP** | Cyllideb Atodol 2014-15 | Cyllideb Derfynol Cynlluniau Dangosol 2015-16 | 2015-16 Newidiadau | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2015-16 |
|---|---|---|---|---|

| | £000 | £000 | £000 | £000 |
|---|---|---|---|---|
| DEL Adnoddau | 353,933 | 353,484 | -11,460 | 342,024 |
| DEL Cyfalaf | 386,820 | 363,420 | 32,000 | 395,420 |
| Gwaelodlin DEL | 740,753 | 716,904 | 20,540 | 737,444 |

Mae'r dyfarndaliadau yn mynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol y portffolio ac yn cefnogi ein themâu allweddol sef trechu tlodi a chefnogi swyddi a thwf. Mae'r ychwanegiadau cyfalaf ar gyfer y cynlluniau allweddol canlynol:

| **Cynllun** | **2015-16 £000** |
|---|---|
| Cynllun Tir Tai Fforddiadwy | 10,000 |
| Troi Tai'n Gartrefi | 10,000 |
| Cynllun Benthyciadau Canol y Dref | 5,000 |
| Benthyciadau Gwella Cartrefi | 5,000 |
| Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | 2,000 |
| **Cyfanswm** | **32,000** |

Mae £30.0m o'r dyfarndaliadau yn ymwneud â chyllid trafodion ariannol a chaiff £2.0m ei ariannu o gyllid cyfalaf traddodiadol.

O fewn MEG cyffredinol CTP, yr elfennau penodol ar gyfer y Pwyllgor yw Cymunedau, Cydraddoldeb, Tai ac Adfywio. Ceir crynodeb o'r elfennau hynny yn y tabl isod.

| **Cefnogi Cymunedau a Phobl** | Cyllideb Atodol 2014-15 £000 | Cyllideb Derfynol Cynlluniau Dangosol 2015-16 £000 | 2015-16 Newidiadau £000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2015-16 £000 |
|---|---|---|---|---|
| DEL Adnoddau | 229,096 | 226,847 | -11,217 | 215,630 |
| DEL Cyfalaf | 378,820 | 361,420 | 27,050 | 388,470 |
| Gwaelodlin DEL | 607,916 | 588,267 | 15,833 | 604,100 |

## 3. Trosolwg o'r Gyllideb

Wrth ddrafftio ein cynigion ar gyfer cyllideb 2015-16, rydym wedi mabwysiadu dull yn seiliedig ar ganlyniad, gan sicrhau bod ein dyraniadau cyllid arfaethedig yn adlewyrchu'r *Blaenoriaethau i Gymru.* Mae ein polisïau a'n hymyriadau yn ganolog i nod Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pawb yng Nghymru'n byw mewn cartref diogel a chynnes mewn cymuned fyrlymus a llwyddiannus. Mae'r portffolio

yn gwneud cyfraniad mawr tuag at iechyd a lles, twf, swyddi a hyfforddiant, cyrhaeddiad addysgol, a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig. Rydym yn gweithio gyda phwyslais cyffredinol ar drechu tlodi drwy gydweithio â'n partneriaid i wella dyfodol cymunedau ledled Cymru.

## 4. Rhaglen Lywodraethu

Mae gan yr Adran nifer o flaenoriaethau penodol sy'n adlewyrchu a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu:

- trechu tlodi a hyrwyddo cydnerthu cymunedol gan gynnwys Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf;
- lleihau effaith diwygio lles;
- cynyddu cynhwysiant ariannol a digidol, gan gynnwys Gwasanaethau Cynghori, Undebau Credyd a'r Gronfa Cymorth Dewisol;
- cefnogi teuluoedd a phlant, yn enwedig drwy Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf;
- cefnogi datblygiad y Trydydd Sector, gwella ei gydberthynas strategol â'r Llywodraeth a sicrhau y gall parhau i gyfrannu at gydlyniant cymunedol a chamau i drechu tlodi;
- cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yng Nghymru;
- gwella ansawdd y stoc dai yng Nghymru;
- galluogi mwy o bobl i aros yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hwy, a lleddfu'r pwysau ar ein portffolios iechyd a gwasanaethau cymdeithasol;
- datblygu cymunedau llewyrchus, hyfyw a diogel y gall pobl Cymru fyw ynddynt, eu mwynhau a chyfrannu at eu lles a'u ffyniant yn y tymor hwy;
- hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant a hawliau plant a phobl ifanc.

Bydd setliad y gyllideb yn ein galluogi i barhau i wneud cynnydd tuag at gyflawni'r ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu. Rydym yn gwneud cynnydd ardderchog tuag at ddarparu 10,000 o gartrefi fforddiadwy yng Nghymru yn ystod tymor y Cynulliad hwn, gyda 4,474 wedi'u darparu yn ystod dwy flynedd gyntaf y llywodraeth hon. Ar yr un pryd, rydym wedi gorfod nodi ein blaenoriaethau'n glir, yn enwedig o ystyried y pwysau ar gyllidebau mawr fel y rhaglen Cefnogi Pobl. Rydym wedi dechrau'r broses o ystyried goblygiadau'r dyraniadau hyn ar y cyd â'n partneriaid cyflawni, gan amlygu'n benodol y flaenoriaeth a roddir i'r ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu.

Mae dyraniadau'r gyllideb yn seiliedig, i raddau helaeth, ar dystiolaeth a gafwyd o raglenni ymchwil a gwerthuso.  Rydym yn gosod pwyslais cynyddol ar Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA) sy'n llywio'r ffordd rydym yn gweithio'n fwy cyffredinol. Bydd yr ymchwil annibynnol a wneir fel rhan o

Astudiaeth Hydredol Cefnogi Pobl yn ein galluogi i werthuso cyflawniadau'r rhaglen a meithrin dealltwriaeth o effaith fyrdymor a hirdymor y rhaglen ar bobl a chymunedau yng Nghymru. Rydym hefyd yn datblygu dull mwy strategol o werthuso'r ffordd rydym yn cyflawni canlyniadau dysgu a thlodi ar draws y portffolio. Bydd hyn yn cynnwys integreiddio rhaglenni a ddatblygwyd yn flaenorol ym mhortffolios Gweinidogol gwahanol yn agosach.

Rydym yn monitro i ba raddau y cyflawnir ymrwymiadau a'u canlyniadau cysylltiedig drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd â phartneriaid cyflawni allweddol gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf a chymdeithasau tai yn ogystal â'm cyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion. Adroddwn ar gynnydd yn Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Lywodraethu. Cynhelir gwerthusiadau o bryd i'w gilydd ac fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau bod y canlyniadau dymunol yn cael eu cyflawni a bod y buddsoddiadau'n darparu gwerth am arian.

## 5. Polisïau allweddol

Trechu Tlodi

Roedd y cyfraniad i Drechu Tlodi yn ffactor amlwg wrth benderfynu ar y newidiadau y dylid eu gwneud rhwng y gyllideb ddangosol ar gyfer 2015-16 a'r gyllideb ddrafft. Ystyriwyd yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol fel rhan o'r Asesiad Integredig o Effaith y gyllideb. Mae'r Penodau Adrannol yn yr Asesiad Integredig o Effaith yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y ffordd yr ystyriwyd yr effaith ar dlodi ym mhob portffolio.

Mae pwyslais cryf ar sicrhau bod y blaenoriaethau cywir yn cael sylw parhaus er mwyn gwella canlyniadau i deuluoedd incwm isel. Rhan bwysig o'r gwaith hwn yw dwyn rhanddeiliaid gwahanol (gan gynnwys Adrannau'r Llywodraeth) ynghyd er mwyn gwneud y gorau o adnoddau ac arbenigedd. Felly hefyd y defnydd o waith ymchwil a gwerthuso i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu a gweithredu ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r gyllideb o £140,000 ar gyfer gwneud hyn yn cael ei chynnal.

Cymunedau yn Gyntaf

Mae Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn rhaglen allweddol o fewn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Ymhlith y newidiadau a wnaed i'r rhaglen yn 2012 roedd lleihau nifer yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf o fwy na 150 i'r 52 o Glystyrau a welir ar hyn o bryd, wedi'u rheoli gan 19 o Gyrff Cyflawni Arweiniol. Mae hyn wedi galluogi'r ardaloedd hynny i rannu mwy o adnoddau ac wedi

arwain at lai o gostau gweinyddol, yn unol ag argymhellion blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae'r Clystyrau yn cynnwys pob un o'r 10% o gymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru (yn seiliedig ar ddata Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011) ynghyd â rhai ardaloedd cyfagos. Mae 24% o boblogaeth Cymru yn byw mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf, ond mae'r Rhaglen yn amlwg yn canolbwyntio nawr ar y bobl fwyaf difrentiedig yn yr ardaloedd hynny er mwyn i adnoddau gael eu targedu at y rheini sydd eu hangen fwyaf.

Mae seilwaith Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei ddefnyddio fwyfwy fel sylfaen ar gyfer rhaglenni a gweithgareddau eraill, gan leihau eu costau eu hunain a galluogi partneriaid allweddol i ymgysylltu'n fwy uniongyrchol ac effeithiol â chymunedau difreintiedig a chael mwy o effaith yn gyflymach. Ymhlith yr enghreifftiau mae lleoli cynghorwyr y Ganolfan Byd Gwaith mewn cyfleusterau cymunedol, cydweithio ag ysgolion lleol gan ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion, darparu Archwiliadau Iechyd ar gyfer Pobl Dros 50 oed mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a Rhaglen Esgyn sy'n cefnogi pobl o aelwydydd heb waith.

Mae clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn adrodd ar yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn Fframwaith Canlyniadau o dan dair blaenoriaeth - Ffyniant a Chyflogaeth; Dysgu a Chyflawni Potensial; ac Iechyd a Lles - a chyfres o fesurau perfformiad allweddol cysylltiedig. Drwy fonitro'r mesurau perfformiad a gofnodir gan Glystyrau a Chyrff Cyflawni Lleol, bydd y Cyrff eu hunain a swyddogion yn gallu cymharu'r hyn a gyflawnwyd a'r gwariant yr aed iddo ar draws pob clwstwr. Caiff mesurau perfformiad Cymunedau yn Gyntaf (yn ogystal â Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg) eu dadgyfuno lle y bo'n bosibl er mwyn rhoi dadansoddiad llawnach o'r buddiolwyr yn ôl nodweddion gwarchodedig yn ogystal â'r nifer sydd wedi manteisio ar y ddarpariaeth a gynigiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Gwerthusiad Proses o'r Rhaglen hyd yma yn mynd rhagddo.

Caiff gostyngiad o £2.322m yng nghyllideb Cymunedau yn Gyntaf ei reoli er mwyn sicrhau y caiff yr effaith leiaf posibl ar y ddarpariaeth, ac felly ni fydd yn cael effaith anghymesur ar unrhyw grŵp penodol yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys lle mae gan Glystyrau gyfran uwch na'r cyfartaledd o siaradwyr Cymraeg, grwpiau lleiafrifoedd ethnig neu bobl â nodweddion gwarchodedig. Caiff effaith y gostyngiad ei rheoli drwy weithio gyda Chyrff Cyflawni Arweiniol i fonitro gwariant yn agos a llunio proffil o'r gwariant hwnnw, a thrwy symud cyllid a allai, fel arall, gael ei danddefnyddio (er enghraifft o ganlyniad i swyddi gwag) i Glystyrau a phrosiectau sydd eisoes yn barod i gyflawni'r canlyniadau gofynnol. Drwy fabwysiadu'r dull hyblyg hwn, dylai'r cyllid a ddyrennir i Raglen Cymunedau yn Gyntaf gael ei wario'n llawn. Ar y sail hon, mae Cyrff Cyflawni Arweiniol yn debygol o gyflawni canlyniadau sy'n debyg iawn i'r rhai a nodwyd yn eu Cynlluniau Cyflawni cyfredol.

At hynny, bydd Cymunedau yn Gyntaf yn parhau i gefnogi prosiectau arian cyfatebol Grant Amddifadedd Disgyblion mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a chanolbwyntio'n fwy ar leihau diweithdra ymhlith pobl ifanc fel mesur ataliol tymor hwy i leihau tlodi. Bydd hefyd yn parhau'n gwbl ymrwymedig i Raglen Esgyn, sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddi i bobl o aelwydydd heb waith a'r rhai sydd fwyaf tebygol o wynebu tlodi parhaus. Bellach, ceir 9 o ardaloedd Esgyn yng Nghymru, sy'n cwmpasu 11 o'r Clystyrau Gymunedau yn Gyntaf. Maent yn defnyddio seilwaith y brif raglen er mwyn lleihau costau gweinyddol a sicrhau bod adnoddau rhaglen Esgyn yn cael eu defnyddio i gefnogi cleientiaid y Rhaglen gymaint â phosibl.

Cafwyd proses ymgynghori ac ymgysylltu helaeth cyn i Raglen Cymunedau yn Gyntaf newid i'w ffurf bresennol, a oedd yn cynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig. Ceir cysylltiad â Rheolwyr Clystyrau a Chyrff Cyflawni Arweiniol mewn cyfarfodydd monitro a chaiff Cynlluniau Cynnwys Cymunedau a Chynlluniau Cyflawni'r Clystyrau eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd yng nghyfarfodydd chwarterol Clystyrau Rhanbarthol.

Diwygio Lles

Mae asesiad Llywodraeth Cymru o effaith y diwygiadau lles, sy'n canolbwyntio ar bobl o oedran gweithio, yn amcangyfrif y bydd gostyngiad o £900 miliwn yn y budd-daliadau a'r credydau treth blynyddol y gellir eu hawlio yng Nghymru yn 2015/16. I roi'r golled gyffredinol hon yn ei chyd-destun, amcangyfrifir y bydd tua £6 biliwn o wariant ar fudd-daliadau a chredydau treth a £45 biliwn o incwm gwario gros yr aelwydydd yn 2015/16.

Gellir priodoli tua hanner y golled hon i'r ffordd y caiff budd-daliadau a chredydau treth eu huwchraddio[1]. Mae colledion ariannol mawr eraill yn deillio o leihad yn y llwyth achosion o dan Daliadau Annibyniaeth Bersonol (PIP) o gymharu â Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) a'r penderfyniad i bennu terfyn amser o flwyddyn ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) cyfrannol i'r rheini yn y grŵp gweithgaredd cysylltiedig â gwaith. I'r gwrthwyneb, mae rhai o'r diwygiadau i Fudd-dal Tai (HB) a'r Cap ar Fudd-dal Tai yn arwain at lawer llai o golledion o ran cyfanswm yr incwm yng Nghymru.

Hyd yn oed ar ôl ystyried effaith y newidiadau i bensiynau a threthi personol, mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn amcangyfrif y bydd colled flynyddol o dros £700 miliwn yng Nghymru yn 2015/16.

[1] Mae'n cynnwys: Newid i uwchraddio'r rhan fwyaf o fudd-daliadau a chredydau treth yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu neu Fynegai Rossi), cap o 1% ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio a chredydau threth (heb gynnwys budd-daliadau anabledd a gofalwyr) a Budd-dal Plant, cynyddu cyfraddau LTLl yn ôl y 30fed ganradd o renti ar y farchnad leol yn hytrach na'r canolrif (yn rhan o ddiwygiadau 2011-12 i'r LTLl), a chynyddu cyfraddau LTLl yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r 30fed ganradd o renti ar y farchnad leol.

Er na all Llywodraeth Cymru wneud iawn am y diffyg a grëwyd gan y newidiadau o ran diwygio lles, fel y'i nodir yn ein Rhaglen Lywodraethu, mae'n ymrwymedig i fynd ati i leddfu effaith y diwygiadau, ar draws y Llywodraeth, gymaint ag y gall o fewn cyd-destun lleihau cyllidebau.

Mae rhywfaint o'r gwaith lliniaru hwn yn cael ei ariannu drwy'r gyllideb Cymunedau, gan gynnwys cyllid ychwanegol i gefnogi gwasanaethau cynghori a chymorth rheng flaen ar faterion sy'n ymwneud â budd-daliadau lles, fel y'i hamlinellir yn yr adrannau ar Gynhwysiant Ariannol a Chynhwysiant Digidol isod.

Bydd angen llunio meini prawf cymhwysedd newydd ar gyfer budd-daliadau a drosglwyddir a gaiff eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru, o ystyried y newidiadau a gyflwynwyd i fudd-daliadau a chredydau treth gan Lywodraeth y DU. Mae'n bosibl y bydd i'r meini prawf cymhwysedd newydd oblygiadau ariannol i gyllideb Llywodraeth Cymru. Rydym wrthi'n asesu'r cyfryw oblygiadau.

Yn olaf, bydd Llywodraeth Cymru yn cadw golwg craff ar oblygiadau unrhyw newidiadau arfaethedig eraill i'r system les o ganlyniad i refferendwm yr Alban.

<u>Cydraddoldeb</u>

Rydym wedi diogelu'r gyllideb ar gyfer ein Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant (EIG), sy'n cefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig drwy ymrwymo i drechu tlodi, sicrhau cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal. Bydd cyllid yn 2015-16 yn parhau i gefnogi'r prosiectau y dyfarnwyd tair blynedd o gyllid iddynt o fis Ebrill 2014. Mae'r Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn cefnogi amcanion ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol o ran trechu tlodi, gan ganolbwyntio ar fesurau ataliol ac ymyriadau cynnar i alluogi pobl i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gweithio tuag at sicrhau cyfleoedd a chanlyniadau mwy cyfartal.

Mae £0.2m wedi'i gadw hefyd ar gyfer Cydlyniant Cymunedol. Nod y rhaglen yw gweld mwy o gydweithio rhwng Awdurdodau Lleol, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a sefydliadau trydydd sector. Mae Cydlyniant Cymunedol hefyd yn gweithio tuag at sicrhau mwy o gyfranogiad ym mywyd y gymuned a chyfle cyfartal gwell i grwpiau na chânt eu clywed yn aml, gan gynnwys Sipsiwn, Teithwyr, ymfudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, gan gefnogi cymunedau sy'n wynebu cyfle anghyfartal yn aml.

<u>Cynhwysiant Ariannol</u>

Mae'r llinell Cynhwysiant Ariannol yn y gyllideb yn cefnogi meysydd gwaith allweddol sy'n ymwneud ag Undebau Credyd, Gwasanaethau Cynghori a'r Gronfa Cymorth Dewisol.

Defnyddiwyd rhywfaint o'r cyllid cydweithredol a roddwyd i Undebau Credyd ym mis Ionawr 2014 i gynnal ymgyrch farchnata a hysbysebu gyda'r nod o gefnogi cynaliadwyedd y mudiad. Mae ffigurau yn dangos, hyd yma, fod 2,504 o aelodau newydd wedi ymuno ag Undebau Credyd ers dechrau'r ymgyrch. Yn ôl gwaith a wnaed gan Beaufort Research ym mis Mehefin 2014, fel rhan o Arolwg Omnibws Cymru, roedd ymwybyddiaeth gyffredinol o Undebau Credyd yng Nghymru wedi cynyddu 6% (o 60% i 66%) ers dechrau'r ymgyrch.

Yn ogystal â'r cyllid cydweithredol, ym mis Mawrth neilltuwyd £1.9 miliwn, wedi'i dapro tan fis Mawrth 2017, i gefnogi'r mudiad undebau credyd. Caiff £0.6m o'r cyfanswm hwn ei ddarparu yn 2015-16. Rhoddwyd y cymorth parhaus hwn i Undebau Credyd er mwyn iddynt allu darparu gwasanaethau i'r aelodau hynny o'r gymdeithas sydd wedi'u hallgáu fwyaf yn ariannol, gan barhau i wella eu cynaliadwyedd eu hunain.

O ran gwasanaethau cynghori, rydym wedi darparu cymorth i'r Cynllun Cyngor Da: Bywyd Da, sy'n rhoi cyngor ynghylch budd-daliadau. Yn ogystal â hyn, cynigiwyd £2 filiwn i ddarparwyr cyngor yn y flwyddyn ariannol hon i gefnogi gwasanaethau cynghori rheng flaen ar faterion sy'n ymwneud â budd-daliadau lles, dyled a thai ac i roi agweddau pwysig ar yr Adolygiad o Wasanaethau Cynghori ar waith, gan gynnwys cydweithio gwell rhwng darparwyr a mwy o gysondeb rhwng gwasanaeth arbenigol sy'n rhoi cyngor ar faterion gwahaniaethu ledled Cymru. Bydd y gwasanaethau hyn o fudd i lawer o bobl yn ein cymunedau sy'n dwyn baich Diwygiadau Lles ac sydd fwyaf tebygol o fod yn byw mewn tlodi. Byddant o fudd i grwpiau â nodweddion gwarchodedig, yn enwedig gwasanaethau arbenigol sy'n delio â materion gwahaniaethu, ac yn cyrraedd pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig o Gymru.

Drwy fonitro'r galw am y Gronfa Cymorth Dewisol yn agos, rwyf wedi gallu ailflaenoriaethu rhywfaint o'r cyllid a ddyrannwyd i'r Gronfa hon yn wreiddiol er mwyn cefnogi rhai o'r gwasanaethau mwy ataliol hyn yn 2014-15. Yn ddarostyngedig i waith monitro agos pellach a'r penderfyniadau a wneir ar y gyllideb derfynol, rwy'n cynnig y dylid cadw'r lefel bresennol o gyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cynghori yn 2015-16.

Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol yn rhoi cymorth brys i rhwng 1,500 a 2,000 o bobl bob mis. Mae gwerthusiad o'r Gronfa yn mynd rhagddo. Mae'r gyllideb Cynhwysiant Ariannol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer parhad y Gronfa.

<u>Cynhwysiant Digidol</u>

Caiff cymorth cyllidebol ei gynnal ar gyfer gweithgareddau Cynhwysiant Digidol drwy ddefnyddio cyllid yr UE a gariwyd ymlaen o 2014-15. Bydd y gweithgareddau hyn yn cyfrannu at gyflawni'r targedau heriol a osodwyd ar gyfer 2017 yn ein Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol a ddiweddarwyd ac a

gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2014. Mae opsiynau'n cael eu hystyried ar gyfer gweithgareddau cynhwysiant digidol yn y dyfodol, a gaiff eu llywio gan y gwerthusiad parhaus o gynllun Cymunedau 2.0. Bydd unrhyw fenter yn y dyfodol yn adeiladu ar y llu o weithgareddau cynhwysiant digidol sy'n cael eu cynnal ledled Cymru mewn partneriaeth â Cymunedau 2.0 ac yn annibynnol ar y cynllun.

<u>Y Trydydd Sector</u>

Yn dilyn ymgynghoriad yn 2013, mae Llywodraeth Cymru wedi ailadrodd ei hymrwymiad i weithio'n agos gyda'r Trydydd Sector yng Nghymru a chefnogi ei ddatblygiad a'i dwf. Nodwyd manylion yr ymrwymiad hwn yng Nghynllun y Trydydd Sector, dogfen a ddiwygiwyd yn llawn a ddatblygwyd mewn partneriaeth agos â'r sector drwy Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ac a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014. Mae'r Cynllun yn cynnwys ein Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector sy'n nodi 17 o Egwyddorion a chyngor ar yr amryw ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid.

Mae Cynllun y Trydydd Sector yn ailadrodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid craidd i gyrff seilwaith y Trydydd Sector ledled Cymru, yn bennaf Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli. Mae'r cyrff hyn yn gweithio'n agos gyda'i gilydd ac yn sicrhau bod cyngor ac arweiniad cyson ar gael yn hawdd i sefydliadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr unigol unrhyw le yng Nghymru. Mae cyllideb Seilwaith y Trydydd Sector yn cwmpasu'r gwaith hwn, yn ogystal â grantiau i gefnogi gwaith gwirfoddoli, Uned Cofnodion Troseddol CGGC a chyllid craidd ar gyfer y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru.

Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2015/16 ond, yn unol â chanlyniadau'r ymgynghoriad, rhoddir mwy o bwyslais o fewn Seilwaith y Trydydd Sector ar drechu tlodi a chefnogi cymunedau lleol. Bydd y gefnogaeth a roddir ar gyfer gwaith gwirfoddoli yn fwy cydlynol hefyd a bydd y cyrff seilwaith yn cefnogi'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno i wasanaethau cyhoeddus yn unol ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys mwy o waith rhanbarthol a rhannu adnoddau. Bydd y newidiadau hyn yn ystyried y gostyngiad yng nghyllideb gyffredinol Seilwaith y Trydydd Sector o £7.3 miliwn yn 2014/15 i £6.805 miliwn yn 2015/16. Mae'r cynigion ar gyfer trefniadau cyllido a ddatblygwyd gan y sector ar gyfer 2015/16 wrthi'n cael eu harfarnu a chaiff penderfyniad terfynol ei wneud ynghylch y dyraniadau cyn y Nadolig, yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector. Bydd y gostyngiad yn y gyllideb yn effeithio ar y cyrff seilwaith, y mae toriadau yng nghyllid awdurdodau lleol neu ffrydiau incwm eraill yn effeithio ar lawer ohonynt hefyd. Caiff gofal ei gymryd i sicrhau bod y toriadau'n cael eu dosbarthu'n deg fel na fydd effaith anghymesur ar unrhyw sefydliad unigol, rhanbarth daearyddol na maes gwaith.

Grant Cefnogi Pobl

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn rhan allweddol o bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Atal Digartrefedd sy'n cefnogi llai o ddefnydd o'r GIG, defnydd hirdymor o Wasanaethau Cymdeithasol, trechu tlodi a mentrau i helpu pobl i mewn i addysg neu gyflogaeth. Mae'r Rhaglen yn rhoi cymorth sy'n gysylltiedig â thai i bobl sy'n agored i niwed.

O ystyried ei phwysigrwydd, rydym wedi ceisio lleihau'r gyllideb hon cymaint â phosibl ond caiff ei lleihau i £124 miliwn yn 2015-16. Bydd y gwaith o liniaru effaith y gostyngiad hwn yn her bwysig i Bwyllgorau Cydweithredu Rhanbarthol, Awdurdodau Lleol a darparwyr gwasanaethau. Mae'r holl asiantaethau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r rhaglen wedi bod yn paratoi ar gyfer gostyngiad yn y gyllideb gyda'r nod o leihau'r effaith y gallai hyn ei chael o ran argaeledd gwasanaethau. Rydym yn parhau i ystyried, ar y cyd â'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol a Phwyllgorau Cydweithredu Rhanbarthol, gynigion manwl ar gyfer gweithredu'r newidiadau hyn.

Rydym yn mesur perfformiad yr ymyriadau sy'n gysylltiedig â'r Grant Cefnogi Pobl mewn sawl ffordd. Yn gyntaf, drwy ystyried gwybodaeth a gyflwynir gan Awdurdodau Lleol sy'n nodi sut maent yn gwario'r grant. Yn ail, drwy gasglu ystod o ddata cyfanredol sy'n amlinellu'r modd y mae canlyniadau yn cael eu cyflawni gan y bobl sy'n cael y cymorth. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau fel 'teimlo'n fwy diogel', 'rheoli arian', a 'rheoli llety' yn ogystal â 'teimlo'n iach yn gorfforol' a 'teimlo'n iach yn feddyliol'. Rydym bellach wedi cytuno ar raglen waith gyda chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol ac Awdurdodau Lleol a fydd yn arwain at gasglu data mwy cyson a chadarn yn y dyfodol. Dros y chwe mis diwethaf, mae fy swyddogion hefyd wedi cynnal archwiliad manwl o'r modd y darperir gwasanaethau mewn dwy ardal awdurdod lleol. Mae'r archwiliadau hyn wedi bod o fudd i bob parti ac wedi darparu tystiolaeth well o effeithiau'r cynllun. Byddwn yn cynnal archwiliadau pellach o'r fath yn 2015-16.

Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

Bydd y cyllid Grant Cyfalaf ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn cynyddu £2m o £1.5m yn 2014-15 i £3.5m yn 2015-16. Mae'r Grant Cyfalaf Safleoedd yn darparu cyllid ar gyfer adnewyddu safleoedd presennol Sipsiwn a Theithwyr Awdurdodau Lleol a datblygu rhai newydd.

Dylai newidiadau yn y gyllideb arwain at ddatblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Awdurdodau Lleol ychwanegol, a fydd yn lleihau cyfraddau digartrefedd ymhlith y cymunedau hyn. Mae tangyflenwad sylweddol o safleoedd

Sipsiwn a Theithwyr awdurdodedig yng Nghymru ac mae angen mynd i'r afael â hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif bod angen rhwng 209 a 243 o leiniau ychwanegol (pob aelwyd ar safle) ac mae'r Awdurdodau Lleol eu hunain wedi amcangyfrif bod angen 326 ohonynt.

Dim ond un safle Sipsiwn a Theithwyr Awdurdod Lleol sydd wedi'i agor yng Nghymru ers 1997 (agorwyd ym mis Ebrill 2014). Mae'r sefyllfa hon wedi arwain at dangyflenwad sylweddol o leiniau, a ddangosir gan asesiadau o lety Sipsiwn a Theithwyr Awdurdodau Lleol a nifer y gwersylloedd sydd heb eu hawdurdodi.

Nododd ymarfer ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol swm y cyllid sy'n debygol o fod ei angen i gefnogi prosiectau arfaethedig yn ystod 2015-16. Tybiwyd bod £2 filiwn ychwanegol yn ddigonol i fodloni'r galw yn ystod y flwyddyn honno. Mae achos busnes wedi'i lunio ar gyfer cyllid mewn blynyddoedd i ddod, gan ystyried y dyletswyddau newydd yn Neddf Tai (Cymru) 2014.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n sefydlu system casglu data gyda'r nod o ddangos y gostyngiad hirdymor mewn gwersylloedd o ganlyniad i safleoedd newydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno Asesiadau newydd o Anghenion Iechyd er mwyn nodi'r anghydraddoldebau iechyd a wynebir gan gymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Dylai'r asesiadau hyn nodi newidiadau o ran mynediad i wasanaethau iechyd a chanlyniadau iechyd dros amser a'u cymharu â mynediad i safleoedd.

Bydd Asesiadau o Lety Awdurdodau Lleol yn parhau i asesu'r angen i ddarparu safleoedd ychwanegol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r asesiadau hyn wrth ddadansoddi'r angen am gyllid Grant Cyfalaf Safleoedd.

Grant Tai Cymdeithasol a Grant Cyllid Tai

Mae'r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol a'r Grant Cyllid Tai yn darparu cyllid i gynorthwyo gyda'r gwaith o adeiladu neu adnewyddu cartrefi fforddiadwy i'w rhentu (cymdeithasol a chanolradd) ac ar gyfer rhannu ecwiti (cymorth prynu). Caiff y cyllid ei ddefnyddio ar gyfer amrywiol fathau o lety e.e. fflatiau, byngalos, hosteli a llochesi, sy'n cynnwys llety a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn.

Dyrannwyd cyllideb cyfalaf o £62.3 miliwn i'r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer 2015-16 ac mae gan y Grant Cyllid Tai gyllideb refeniw o £4 miliwn.

Mae'r tai fforddiadwy a ddarperir gyda chymorth grant yn bodloni Gofynion Ansawdd Dylunio (DQR) a safonau cartrefi gydol oes er mwyn sicrhau gwerth am

arian. Caiff perfformiad ei fesur yn erbyn y targed o 10,000 o dai fforddiadwy yn ystod cyfnod y llywodraeth hon ac mae 4,474 o dai wedi'u hadeiladu yn ystod y ddwy flynedd gyntaf. Caiff unrhyw gynnydd yn nifer y tai fforddiadwy ei ddangos gan ystadegau Llywodraeth Cymru ar nifer y tai fforddiadwy newydd sy'n cael eu darparu bob blwyddyn. Caiff yr ystadegau diweddaraf ar gyfer 2013-14 eu cyhoeddi yn yr Hydref.

Troi Tai'n Gartrefi

Y targed cyffredinol yw bod 5,000 o eiddo gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Mae 4,471 o eiddo eisoes wedi'u hadnewyddu yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae ein polisi Troi Tai'n Gartrefi ar y trywydd cywir a bydd yn sicrhau bod mwy o gartrefi ar gael er mwyn helpu i fynd i'r afael â materion cymdeithasol ac adfywio cymunedau. Bydd y swm ychwanegol o £10m ar gyfer 2015-16 yn ein galluogi i dargedu mwy o'r 20,000 o eiddo gwag yng Nghymru a chyflawni buddiannau'r cynllun yn gynt.

Mae Prifysgol Sheffield Hallam wedi cwblhau bron i ddwy flynedd o'i gwerthusiad tair blynedd o'r rhaglen a gyhoeddir y flwyddyn nesaf.

Cymorth i Brynu - Cymru

Byddwn yn buddsoddi mwy na £170 miliwn dros dair blynedd yn ein cynllun Cymorth i Brynu - Cymru, sydd wedi'i gynllunio i gynyddu'r cyflenwad tai yng Nghymru, gan helpu'r sawl sy'n prynu am y tro cyntaf a'r rheini sydd eisoes yn berchen ar dŷ i brynu eiddo newydd.

Mae dros 800 o geisiadau am fenthyciadau wedi'u cymeradwyo o dan ein cynllun Cymorth i Brynu. Mae'r cynllun yn helpu i adfer hyder yn y sector adeiladu ac yn galluogi mwy o bobl i brynu tŷ am y tro cyntaf. Yn ystod y cyfnod adeiladu, caiff cyflogaeth yn y gymuned leol a'r ardal gyfagos ei chefnogi hefyd drwy'r contract adeiladu, gan ddarparu swyddi, cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaethau. Mae hyn yn helpu i gynnal busnesau bach a chefnogi cyflogaeth hirdymor yn yr ardal.

Mae'r cynllun yn destun adolygiad cadarn o wybodaeth reoli fanwl sy'n cwmpasu gweithgarwch adeiladwyr, gweithgarwch prynwyr, gweithgarwch benthycwyr a gwybodaeth ariannol gyffredinol.

Caiff trafodaethau â Thrysorlys EM ynghylch y cyllid Trafodion Ariannol y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ei ad-dalu eu harwain gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth.

Safonau Ansawdd Tai Cymru

Drwy fuddsoddi yn Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC), ein nod yw sicrhau bod pob annedd o ansawdd da ac yn addas ar gyfer anghenion preswylwyr nawr ac yn y dyfodol. Pennodd Llywodraeth Cymru darged i bob landlord cymdeithasol, sef gwella ei stoc dai er mwyn cyrraedd SATC cyn gynted â phosibl, ac erbyn 2020 fan bellaf. Mae'r ffurflenni ystadegol cyfredol a gyflenwyd gan landlordiaid cymdeithasol yn darogan y bydd 73% o'u stoc yn cydymffurfio â'r Safon erbyn mis Mai 2016.

Mae proses Cynllun Busnes drwyadl ar waith sy'n gofyn yn benodol i landlordiaid am y risgiau sy'n gysylltiedig â diwygio lles. Mae cynlluniau a ddatblygwyd gan Gymdeithasau Tai Lleol er mwyn sicrhau y cyrhaeddir SATC yn cael eu hasesu gan ein Dadansoddwyr Ariannol ar hyn o bryd. Mae hefyd yn ofynnol bellach i bob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig a Chymdeithas Dai Leol gynnwys cymalau cymdeithasol ym mhob contract caffael lle gellir gwireddu buddiannau cymunedol - caiff y canlyniadau eu holrhain drwy Gwerth Cymru.

Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid

Mae'r Fframwaith Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn amlinellu ein hamcanion adfywio cenedlaethol sef y dylai pawb yng Nghymru fyw mewn cymunedau llewyrchus, cynaliadwy, llawn addewid, sydd â chysylltiadau da, economi leol gref ac ansawdd bywyd da. Mae'n gyson â rhaglen Cymunedau yn Gyntaf - Cymunedau Ffyniannus, Cymunedau Dysgu a Chymunedau Iachach.

Caiff y brif raglen ei chefnogi gan gyllideb trechu tlodi gwerth £7 miliwn ar gyfer saith cymuned arall yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae'r £7 miliwn wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau yn y 10 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac fe'i dyrannwyd i'r awdurdodau lleol i'w ddefnyddio mewn ardaloedd penodol - naill ai dref neu ardal o fewn tref neu ddinas.

Mae fframwaith gwerthuso cadarn yn cael ei ddatblygu ar gyfer Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Rydym wedi cytuno ar amrywiaeth o ddangosyddion y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol bennu rhagolygon a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn eu herbyn.

Cyfleusterau Cymunedol

Mae'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn gynllun grant dewisol. Gwahoddwyd ceisiadau ar gyfer dyfarndaliadau unigol o hyd at £500,000. Cyhoeddwyd bod y rhaglen yn anelu at gynnig £10 miliwn rhwng nawr a diwedd 2015. Bydd hynny'n wir o hyd ond caiff £4.95 miliwn o'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol ei drosglwyddo i Dechrau'n Deg ar sail anghylchol yn 2015-16. Mae hyn yn debygol o olygu na fydd cyllid ar gael ar gyfer rhwng pump a deg o brosiectau cyfalaf cymunedol yn 2015/16. Roedd y penderfyniad i drosglwyddo cyllid i Dechrau'n Deg yn seiliedig ar y ffaith y byddai buddsoddi mewn darpariaeth o

ansawdd da ar gyfer blynyddoedd cynnar, gan gynnwys gofal plant a chymorth rhianta, yn cael mwy o effaith ataliol yn yr hirdymor. Mae'r penderfyniad yn gyson â hyrwyddo hawliau plant, fel sy'n ofynnol gan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Bydd y cyllid a drosglwyddir yn helpu i gyflawni targed y Llywodraeth o ddyblu nifer y plant dan 4 oed sy'n cael budd o Dechrau'n Deg i 36,000 erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn.

**Cydraddoldeb, cynaliadwyedd ac ystyriaeth o'r Gymraeg**

Wrth gymhwyso materion datblygu cynaliadwy at y broses o bennu'r gyllideb ar gyfer CTP, gwnaed penderfyniadau sy'n adlewyrchu pum egwyddor allweddol datblygu cynaliadwy:

- *Cydweithio* – cydnabod na all llawer o'r atebion i'r heriau 'cynaliadwyedd' sy'n wynebu Cymru gael eu datrys gan un sefydliad yn unig. Byddwn yn parhau i achub ar gyfleoedd i gydweithio ar draws y Llywodraeth a chyda phartneriaid eraill, gan gynnwys y trydydd sector, er mwyn sicrhau bod rhaglenni a gwasanaethau yn cyrraedd y cymunedau sydd eu hangen fwyaf.
- *Integreiddio* – er enghraifft, mae gan ein rhaglenni Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Cymunedau yn Gyntaf ganlyniadau a rennir sy'n hyrwyddo ffyniant a chyflogaeth, dysgu a chyflawni potensial, ac iechyd a lles. Mae ein rhaglenni hefyd yn helpu i gyflawni'r amcanion a nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- *Hirdymor* – buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar a chymorth i deuluoedd, gan fod y dystiolaeth yn dangos y bydd hyn yn arwain at fwy o fuddiannau yn yr hirdymor.
- *Atal* – ceisio mynd i'r afael â phroblemau yn y fan a'r lle, yn hytrach na mynd i'r afael â chanlyniadau'r problemau hyn yn ddiweddarach. Mae dulliau ataliol ac ymyriadau cynnar nid yn unig yn fuddiol i bobl a chymunedau ond gallant hefyd sicrhau arbedion cost hirdymor hefyd. Mae'r dull gweithredu hwn yn ganolog i'n rhaglenni trechu tlodi a'n dulliau o fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb a wynebir gan bobl â nodweddion gwarchodedig.
- *Canolbwyntio ar y dinesydd / ymgysylltu* – cydnabod pwysigrwydd cynnwys pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt: er enghraifft, mae cyfranogiad y gymuned yn nodwedd allweddol ar raglen Cymunedau yn Gyntaf.

Mae blaenoriaethu anghenion y tlotaf a diogelu’r rhai mwyaf difreintiedig a mwyaf agored i niwed yn hollbwysig, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd gyfredol. Mae’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a’r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn darparu fframwaith pwysig ar gyfer gwneud hyn. Yn benodol, mae’r camau gweithredu i drechu tlodi a chamau gweithredu i leihau anghydraddoldebau nid yn unig yn ategu ei gilydd ond yn adeiladu ar ei gilydd hefyd.

Dengys y dystiolaeth fod pobl sydd â nodweddion gwarchodedig penodol yn wynebu mwy o risg o fyw mewn aelwydydd incwm isel ac felly bydd mentrau i drechu tlodi yn cael effaith gadarnhaol ar y grwpiau hynny. Gwyddom hefyd fod rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, rhieni unigol (merched yn bennaf), a phobl iau nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant yn wynebu mwy o risg o fyw mewn aelwydydd incwm isel. Yn arbennig, mae cynrychiolaeth anghymesur o bobl anabl mewn cartrefi economaidd anweithgar ac aelwydydd heb waith. Byddwn yn parhau i nodi cyfleoedd i gysoni Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru â'r amcanion yn y Strategaeth Tlodi Plant a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, a helpu'r plant a'r teuluoedd hynny sydd â nodweddion gwarchodedig penodol. Mae mwy o bwyslais eisoes ar fonitro canlyniadau'r grwpiau hynny sy'n wynebu risg o fyw mewn tlodi a'r rhai â nodweddion gwarchodedig o fewn rhaglenni'r portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi.

Fel rhan o'n rhaglen ymchwil i asesu effaith y diwygiadau lles yng Nghymru, rydym wedi ystyried effeithiau ar y rhai â nodweddion gwarchodedig. Dengys canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn y bydd aelwydydd â phobl anabl o oedran gweithio, a'r rhai ar incwm isel yn benodol, yn colli llawer mwy o incwm ar gyfartaledd nag aelwydydd heb bobl anabl o oedran gweithio o ganlyniad i ddiwygiadau treth a lles llywodraeth y DU. Dengys yr ymchwil hefyd y caiff y diwygiadau effaith sylweddol ar rieni unigol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ferched, o gymharu â mathau eraill o aelwydydd (e.e. pensiynwyr). Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod aelwydydd o'r fath yn fwy dibynnol ar fudd-daliadau, a/neu'n ddibynnol iawn ar y budd-daliadau hynny a dorrwyd fwyaf.[2]. Rydym yn defnyddio canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn i helpu i dargedu ein camau lliniaru tuag at y rhai y mae angen y cymorth mwyaf arnynt.

Caiff tystiolaeth sy'n dangos bod Sipsiwn a Theithwyr yn cael gwell mynediad i wasanaethau os ydynt yn byw ar safleoedd awdurdodedig ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ei hategu gan lawer o astudiaethau ymchwil, gan gynnwys astudiaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'Inequalities experienced by Gypsy and Traveller communities: A review' (2009). Mae Estyn wedi cydnabod pa mor bwysig ydyw hefyd i addysg plant. Drwy ddarparu mwy o safleoedd, bydd Llywodraeth Cymru yn dangos ei bod yn helpu i hwyluso ffordd draddodiadol y Sipsiwn o fyw (gofyniad a sefydlwyd gan achos Chapman v y DU yn Llys Hawliau Dynol Ewrop, 2001).

Mae gwaith ymchwil pellach yn dangos yn glir bod canlyniadau iechyd ac addysg plant a phobl ifanc yn well os ydynt yn byw mewn cartref diogel a chlud mewn cymuned ddiogel.  Bydd y cyllid a ddarparwyd gennym ar gyfer ein Rhaglenni Lwfans Atgyweiriadau Mawr a Grant Tai Cymdeithasol yn helpu i wella'r canlyniadau hyn.

---

[2] Phillips, D. (2014) Effeithiau dosbarthiadol diwygiadau treth a lles Llywodraeth y DU yng Nghymru: diweddariad.

## 6. Gwariant Ataliol

Erys gwariant ataliol yn un o themâu allweddol y portffolio hwn. Awgryma tystiolaeth fod buddsoddi mewn datblygu blynyddoedd cynnar yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol ac ariannol gynaliadwy o drechu tlodi, gan arwain at ganlyniadau gwell i'r plentyn unigol a llai o angen am ymyriadau drud flynyddoedd yn ddiweddarach. Mae'r safbwynt hirdymor hwn yn gyson â'r dull gweithredu datblygu cynaliadwy sydd wedi'i ymgorffori yn Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae Cymunedau yn Gyntaf, mewn sawl ffordd, yn rhaglen ataliol sy'n darparu adnoddau allweddol i'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac yn gweithio'n agos gyda phobl leol i gynllunio a chyflwyno atebion i broblemau lleol. Nodwyd bod y rhaglen yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o leihau tensiwn a hyrwyddo cydlyniant cymunedol mewn rhai ardaloedd. Yn fwy cyffredinol, mae'n darparu llwyfan ar gyfer cymryd camau sy'n canolbwyntio ar y gymuned gyda phwyslais cryf ar gyfranogiad y gymuned a gweithio gyda'r bobl â'r angen mwyaf.

Mae'r Grant Cefnogi Pobl yn rhaglen gwariant ataliol allweddol sy'n galluogi pobl i aros yn eu cartrefi am gyfnod hwy ac yn lleihau'r pwysau ar y GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol. Er i'r Gyllideb Atodol gael ei diogelu y llynedd, rydym wedi penderfynu diogelu'r gyllideb Ddigartrefedd eleni oherwydd y gofynion cynyddol ar y gyllideb i gyflawni elfennau Digartrefedd y Bil Tai. Golyga hyn y bydd y Grant Cefnogi Pobl yn gostwng i £124.4 miliwn yn 2015-16.

Mae'r gyllideb Ddigartrefedd gwerth £11.3 miliwn yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o atal digartrefedd a'r costau y mae Awdurdodau Lleol yn mynd iddynt pan fydd pobl yn y sefyllfa hon. Bydd y gronfa hefyd yn cyflawni elfennau allweddol o'r Bil Tai gan y bydd y Bil Tai yn gosod ymyriadau cynnar wrth wraidd dyletswyddau digartrefedd Awdurdodau Lleol, ac yn ategu'r mesurau rydym yn eu cymryd mewn meysydd eraill fel gwasanaethau cymdeithasol, cam-drin domestig a chyfiawnder ieuenctid.

Mae'r cyllid yn y gyllideb ddrafft ar gyfer Byw'n Annibynnol, gwerth £4.4m yn 2015-16, hefyd yn wariant ataliol. Mae'r cyllid hwn yn darparu'r addasiadau ffisegol sydd eu hangen ar bobl i aros yn eu cartrefi yn hytrach na mynd i'r ysbyty neu gartref gofal. Mae'r cyllid hefyd yn galluogi cleifion i adael yr ysbyty yn gynt a dychwelyd adref drwy wneud yr addasiadau bach sydd eu hangen a thrwy hynny ryddhau adnoddau ysbytai yn gynt.

Mae egwyddorion tebyg yn ategu'r gefnogaeth barhaus y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i'r Trydydd Sector yng Nghymru, gan gydnabod bod miloedd o sefydliadau gwirfoddol a chymunedol ym mhob rhan o'r wlad yn chwarae rhan

hanfodol yn y gwaith o gefnogi unigolion a grwpiau, gan leihau'r baich ar wasanaethau cyhoeddus.  Er enghraifft, mae elusennau iechyd a grwpiau cymorth yn darparu cymorth i bobl ag ystod eang o broblemau iechyd a allai fod yn fwy dibynnol ar y GIG fel arall.  Mae angen i'r sefydliadau hyn, yn eu tro, gael y cyngor a'r cymorth i sicrhau y cânt eu rheoli'n dda a'u bod yn gynaliadwy. Gyda mwy o bwyslais ar lywodraethu da a chynnydd cyson yn y fframweithiau rheoliadol sy'n effeithio ar grwpiau gwirfoddol, mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer seilwaith y Trydydd Sector yn sicrhau bod cyngor cyson a dibynadwy ar gael ar gyfer sefydliadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr unigol ledled Cymru.

Mae'r arian a ddarperir ar gyfer Gwasanaethau Cynghori yn gyllid ataliol, boed yn gyngor ar ddyledion neu fanteisio ar fudd-daliadau. Fel y nodwyd uchod, nod y cyllid hwn yw sicrhau bod pobl yn cael cymorth cyn iddynt ganfod eu hunain mewn sefyllfa lle mae'n rhaid iddynt geisio ffynonellau cymorth eraill neu hyd yn oed gyllid.

Mae ein buddsoddiad parhaus mewn Cynhwysiant Digidol yn enghraifft amlwg o gyllid ataliol gan ei fod yn gwella ansawdd bywyd pobl drwy eu helpu i ddod o hyd i waith a gwneud i'w harian fynd ymhellach drwy nwyddau a gwasanaethau rhatach a mwy hygyrch ar-lein.  Gall gwasanaethau digidol fel skype a grwpiau cymorth ar-lein helpu i leihau teimladau o unigedd a helpu pobl i fyw'n annibynnol hefyd, gan wella Iechyd a Lles a lleihau'r pwysau ar gyllidebau iechyd o bosibl. Caiff cymorth cyllidebol ei gynnal ar gyfer Cynhwysiant Digidol drwy ddefnyddio cyllid yr UE a gariwyd ymlaen o 2014-15. Mae ein rhaglen cynhwysiant digidol yn cyfrannu'n uniongyrchol at drechu tlodi, fel y dangosir gan y targedau cynhwysiant digidol a ymestynnwyd yn ddiweddar a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Caiff dinasyddion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol eu cynorthwyo i ennill sgiliau TGCh sylfaenol er mwyn helpu i wella eu siawns o gael gwaith ac arbed arian drwy brynu nwyddau a gwasanaethau rhatach a mwy hygyrch ar-lein. Mae buddsoddi mewn cymdeithas sy'n fwy cynhwysol yn ddigidol yn enghraifft amlwg o wariant ataliol, a fydd yn arwain at fwy o arbedion yn sgil y defnydd cynyddol o wasanaethau cyhoeddus digidol.

Yn y tymor hwy, bydd creu mwy o safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn cael sgil-effaith gadarnhaol ar Dai Cymdeithasol gan y bydd yn rhyddhau mwy o dai os bydd Sipsiwn a Theithwyr yn gallu symud i safle newydd. Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd Sipsiwn a Theithwyr fwy na dwywaith yn fwy tebygol o fyw mewn tai cymdeithasol o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru a Lloegr (41 y cant o gymharu ag 16 y cant).

## 7. Deddfwriaeth

Bil Tai (Cymru)

Daeth Bil Tai (Cymru) yn Ddeddf Tai (Cymru) 2014 pan roddwyd Cydsyniad Brenhinol iddo yng nghanol mis Medi 2014.

Ers iddo gael ei gyflwyno ym mis Tachwedd 2013, mae'r Bil wedi'i ategu gan Femorandwm Esboniadol, sy'n cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi goblygiadau ariannol yr amrywiol ddarpariaethau yn y Bil.

Nodwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn mynd i'r costau ychwanegol canlynol wrth weithredu'r ddeddfwriaeth yn 2015-16:

- £800,000 ar gyfer Rhan 1 (Rheoleiddio Tai Rhent Preifat);
- £5,900,000 ar gyfer Rhan 2 (Digartrefedd)

Y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (y Bil o hyn ymlaen) a bydd y Llywodraeth yn gwrthwynebu'r Bil ar Gam 1. Ar hyn o bryd, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i'r Bil yn cynnwys syniad bras iawn o'r costau y bydd Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yn mynd iddynt wrth weithredu'r Bil. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'n fuddiol i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gynnwys mwy o fanylion am rai o'r costau a gyfrifwyd er mwyn gwella cadernid y wybodaeth ariannol a ddarparwyd. Ar wahân i hyn, mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig ar hyn o bryd ac felly, pe bai'r Bil yn dod yn gyfraith, byddai'n rhaid ailflaenoriaethu'r costau hyn o gyllidebau sy'n bodoli eisoes.

**Lesley Griffiths AC**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

| | CYLLIDEB REFENIW - Terfyn Gwariant Adrannol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **Camau gweithredu** | **BEL** | **2014-15 Cyllideb Atodol Cynlluniau Newydd Mehefin 2014** | **2015-16 Gwaelodlin** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddrafft 2015-16** |
| **Cefnogi Cymunedau a Phobl** | Y Trydydd Sector | Y Trydydd Sector | 7,300 | 7,000 | -195 | 6,805 |
| | | **Y Trydydd Sector** | **7,300** | **7,000** | **-195** | **6,805** |
| | Trechu Tlodi | Cynhwysiant Ariannol | 15,977 | 14,977 | 200 | 15,177 |
| | | Cynhwysiant Digidol | 1,000 | 1,000 | -1,000 | 0 |
| | | Diwygio Lles | 145 | 0 | 0 | 0 |
| | | Cymunedau yn Gyntaf | 39,450 | 38,383 | -2,322 | 36,061 |
| | | Polisi Tlodi Plant | 140 | 140 | 0 | 140 |
| | | **Trechu Tlodi** | **56,712** | **54,500** | **-3,122** | **51,378** |
| **Cyfanswm Cefnogi Cymunedau a Phobl** | | | **64,012** | **61,500** | **-3,317** | **58,183** |
| **Cydraddoldeb a Chynhwysiant** | Cydraddoldeb a Chynhwysiant | Cydlyniant Cymunedol | 200 | 200 | 0 | 200 |
| | | Cronfa Cydraddoldeb a Chynhwysiant | 1,645 | 1,645 | 0 | 1,645 |
| | | **Cydraddoldeb a Chynhwysiant** | **1,845** | **1,845** | **0** | **1,845** |
| **Cyfanswm Cydraddoldeb a Chynhwysiant** | | | **1,845** | **1,845** | **0** | **1,845** |
| **Polisi Tai** | Cefnogi Pobl | Grant Cefnogi Pobl | 134,359 | 130,218 | -5,809 | 124,409 |
| | Digartrefedd | Digartrefedd | 6,431 | 11,331 | 0 | 11,331 |
| | Byw'n Annibynnol | Asiantaethau Gwella Cartrefi | 4,191 | 4,191 | -135 | 4,056 |
| | | Rhaglen Addasiadau Brys | 432 | 432 | | 432 |
| | | **Byw'n Annibynnol** | **4,623** | **4,623** | **-135** | **4,488** |
| | Datblygu a Gweithredu | Datblygu a Gweithredu Polisi | 1,702 | 1,702 | -450 | 1,252 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Polisi | **Datblygu a Gweithredu Polisi** | **1,702** | **1,702** | **-450** | **1,252** |
| **Cyfanswm Polisi Tai** | | | **147,115** | **147,874** | **-6,394** | **141,480** |
| **Cartrefi a Lleoedd** | Sicrhau tai o ansawdd | Safonau Ansawdd Tai Cymru | 274 | 274 | -174 | 100 |
| | | **Sicrhau tai o ansawdd** | **274** | **274** | **-174** | **100** |
| | Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy o Ansawdd | Ffactorau Galluogi Tai | 95 | 95 | | 95 |
| | | Cymorth ar gyfer Tai Cymdeithasol | 4,000 | 4,000 | 100 | 4,100 |
| | | **Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai** | **4,095** | **4,095** | **100** | **4,195** |
| | Ymchwil a gwerthuso polisi | Tai fforddiadwy | 0 | 0 | 30 | 30 |
| | | Ymchwil a gwerthuso polisi | 362 | 312 | 720 | 1,032 |
| | | **Ymchwil a gwerthuso polisi** | **362** | **312** | **750** | **1,062** |
| Tudalen y pecyn 108 | Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai ar y Farchnad | Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai ar y Farchnad | **0** | **0** | **30** | **30** |
| | Adfywio | Gweithredu Ardaloedd Adfywio Strategol | 3,827 | 3,381 | -1,436 | 1,945 |
| | | Rheoli'r Gwaith o Ddarparu Ardaloedd Adfywio Etifeddol | 6,790 | 6,790 | 0 | 6,790 |
| | | **Adfywio** | **10,617** | **10,171** | **-1,436** | **8,735** |
| **Cyfanswm Cartrefi a Lleoedd** | | | **15,348** | **14,852** | **-730** | **14,122** |
| **Cyfanswm y Refeniw - Cymunedau a Threchu Tlodi** | | | **228,320** | **226,071** | **-10,441** | **215,630** |

| | CYLLIDEB CYFALAF - Terfyn Gwariant Adrannol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **Camau gweithredu** | **BEL** | **2014-15 Cyllideb Atodol Cynlluniau Newydd Mehefin 2014** | **2015-16 Gwaelodlin** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddrafft 2015-16** |
| **Cymunedau a Threchu Tlodi** | Cymunedau a Threchu Tlodi | Cyfleusterau Cymunedol | 10,950 | 10,950 | -4,950 | 6,000 |
| | | Sipsiwn-Teithwyr | 1,500 | 1,500 | 2,000 | 3,500 |
| | | **Cymunedau a Threchu Tlodi** | **12,450** | **12,450** | **-2,950** | **9,500** |
| **Cyfanswm Cymunedau a Threchu Tlodi** | | | **12,450** | **12,450** | **-2,950** | **9,500** |
| **Polisi Tai** | Byw'n Annibynnol | Rhaglen Addasiadau Brys | 1,641 | 1,641 | 0 | 1,641 |
| | | **Byw'n Annibynnol** | **1,641** | **1,641** | **0** | **1,641** |
| | Cronfa Gofal Canolraddol | Cronfa Gofal Canolraddol | 15,000 | 0 | 0 | 0 |
| | | **Cronfa Gofal Canolraddol** | **15,000** | **0** | **0** | **0** |
| | Rhaglen Eiddo Gwag | Rhaglen Eiddo Gwag | 0 | 0 | 10,000 | 10,000 |
| | | **Rhaglen Eiddo Gwag** | **0** | **0** | **10,000** | **10,000** |
| **Cyfanswm Polisi Tai** | | | **16,641** | **1,641** | **10,000** | **11,641** |
| **Cartrefi a Lleoedd** | Sicrhau Tai o Ansawdd | Lwfans Atgyweiriadau Mawr | 108,000 | 108,000 | | 108,000 |
| | | Cymorth Cyffredinol sy'n Gysylltiedig â Thai | 37,470 | 37,470 | | 37,470 |
| | | Ardaloedd Adnewyddu | 11,537 | 11,537 | -3,508 | 8,029 |
| | | Benthyciad Gwelliannau i'r Cartref | 0 | 0 | 5,000 | 5,000 |
| | | **Sicrhau tai o ansawdd** | **157,007** | **157,007** | **1,492** | **158,499** |
| | Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy o Ansawdd | Grantiau Tai Cymdeithasol | 53,833 | 57,833 | 0 | 57,833 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Tir ar gyfer Tai | 13,700 | 0 | 10,000 | 10,000 |
| | | Gofal ychwanegol | 4,301 | 4,301 | 0 | 4,301 |
| | | **Cynyddu'r cyflenwad a'r dewis o Dai o Ansawdd** | **71,834** | **62,134** | **10,000** | **72,134** |
| | Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai ar y Farchnad | Cymorth i Brynu - Cymru | 69,000 | 71,000 | 0 | 71,000 |
| | | **Cymorth i Brynu - Cymru** | **69,000** | **71,000** | **0** | **71,000** |
| | Adfywio | Gweithredu Ardaloedd Adfywio Strategol | 39,600 | 44,900 | 3,508 | 48,408 |
| | | Rheoli'r Gwaith o Ddarparu Ardaloedd Adfywio Etifeddol | 1,400 | 1,400 | 0 | 1,400 |
| | | Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Adfywio Awdurdodau Lleol | 10,888 | 10,888 | 0 | 10,888 |
| | | Adfywio Canol y Dref | 0 | 0 | 5,000 | 5,000 |
| | | **Cyfanswm Adfywio** | **51,888** | **57,188** | **8,508** | **60,696** |
| **Cyfanswm Cartrefi a Lleoedd** | | | **349,729** | **347,329** | **20,000** | **362,329** |
| **Cyfanswm y Cyfalaf - Cymunedau a Threchu Tlodi** | | | **378,820** | **361,420** | **27,050** | **383,470** |
| | | | | | | |
| | **Cyfanswm Cyllideb DEL Cymunedau a Threchu Tlodi** | | **2014-15 Cyllideb Atodol Cynlluniau Newydd Mehefin 2014** | **2015-16 Gwaelodlin** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddrafft 2015-16** |
| | DEL Refeniw | | 228,320 | 226,071 | -10,441 | 215,630 |
| | DEL Cyfalaf | | 378,820 | 361,420 | 27,050 | 388,470 |
| | **Cyfanswm DEL** | | **607,140** | **587,491** | **16,609** | **604,100** |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

**Dyddiad:** **9 Hydref 2014**

**Amser:** **14:30 -15:30**

**Teitl:** **Papur tystiolaeth ar y Gyllideb Ddrafft:**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**

**Cyflwyniad**

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth ariannol gefndirol i'r Pwyllgor ynghylch fy nghynlluniau gwario yn rhinwedd fy swydd fel y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth – o ran y **cyllidebau Diwylliant a Chwaraeon** yn fy mhortffolio, fel yr amlinellir yn y Gyllideb Ddrafft.

2. Mae Atodiad A yn rhoi manylion ffigurau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon, yn ôl Gweithred, ac yn ôl y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) fel rhan o bob Gweithred.

3. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am wybodaeth ar faterion cyllidebol penodol fel y nodir yn yr Atodiad i'r llythyr oedd yn fy ngwahodd i ddod i sesiwn y Pwyllgor. Caiff yr ymatebion eu cynnwys yn y papur tystiolaeth hwn.

**Cefndir a Chrynodeb**

4. Gellir crynhoi ffigurau'r gyllideb ddrafft ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon fel a ganlyn:

| Maes y Rhaglen Wariant | Cyllideb Atodol 2014-15 £'000 | Cynlluniau Dangosol 2015-16 £'000 | Newidiadau 2015-16 £'000 | Cyllideb Ddrafft 2015-16 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Refeniw:** | | | | |
| Y Celfyddydau | 33,408 | 33,158 | -615 | 32,543 |
| Amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd | 37,045 | 36,695 | -525 | 36,170 |
| Chwaraeon a gweithgarwch corfforol | 23,739 | 23,474 | -291 | 23,183 |
| Y Cyfryngau a Chyhoeddi | 3,726 | 3,626 | -100 | 3,526 |
| Yr amgylchedd hanesyddol a naturiol | 12,141 | 12,086 | 2,600 | 14,686 |
| | | | | |
| **CYFANSWM REFENIW** | **110,059** | **109,039** | **1,069** | **110,108** |
| | | | | |
| **Cyfalaf:** | | | | |
| Y Celfyddydau | 355 | 355 | 0 | 355 |
| Amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd | 7,343 | 4,243 | 500 | 4,743 |
| Chwaraeon a gweithgarwch corfforol | 345 | 5,345 | 0 | 5,345 |
| Y Cyfryngau a Chyhoeddi | 25 | 25 | 35 | 60 |
| Yr amgylchedd hanesyddol a naturiol | 5,126 | 5,126 | -725 | 4,401 |
| | | | | |
| **CYFANSWM CYFALAF** | **13,194** | **15,094** | **-190** | **14,904** |
| | | | | |
| **CYFANSWM CYLLIDEB DEL** | **123,253** | **124,133** | **879** | **125,012** |
| | | | | |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Darpariaethau pensiwn)** | **2,740** | **3,013** | **0** | **3,013** |
| | | | | |
| **CYFANSWM Y GYLLIDEB** | **125,993** | **127,146** | **879** | **128,025** |
| | | | | |

5. Mae ffigurau'r gyllideb refeniw yn cynnwys cyllideb ychwanegol nad yw'n arian parod o £3m ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Heb gynnwys hon, mae'r cyllidebau refeniw wedi gostwng 1.8% o'u cymharu â'r cynlluniau dangosol blaenorol, a 2.8% o'u cymharu â ffigurau'r Gyllideb Atodol ar gyfer 2014-15. Mae rhagor o fanylion i'w gweld isod.

**Blaenoriaethau Cyllidebol**

6. Mae'r portffolio Diwylliant a Chwaraeon yn ganolog i'r nod sydd gan Lywodraeth Cymru o gyfoethogi bywydau unigolion a chymunedau

trwy ein diwylliant, ein treftadaeth a chwaraeon trwy alluogi rhagor o bobl i'w mwynhau. Yn ogystal, mae'r portffolio yn cyfrannu tuag at iechyd a lles, twf a swyddi, cyrhaeddiad addysgol, a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau, yn cynnwys mynd i'r afael â thlodi.

7. Mae datblygu cynaliadwy yn greiddiol i bolisïau Diwylliant a Chwaraeon, gan gydbwyso anghenion byrdymor brys pobl Cymru a'u buddiannau hirdymor. Er enghraifft, mae denu rhagor o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn rhan bwysig a hanfodol o ymgais y Llywodraeth gyfan i godi lefelau gweithgarwch corfforol yng Nghymru a gwella iechyd a lles y genedl.

8. Wrth lunio cynigion y Gyllideb, rhoddwyd lle blaenllaw i'r blaenoriaethau a ganlyn:

- cynyddu cyfraddau gweithgarwch corfforol er mwyn helpu i wella iechyd;
- cryfhau cyfraniad y portffolio at yr economi; a
- ceisio sicrhau bod rhagor o bobl, yn enwedig pobl ifanc, yn gwerthfawrogi diwylliant a threftadaeth ac yn cymryd rhan ynddynt gan gefnogi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi.

**Newidiadau i'r cyllidebau - Refeniw**

9. O'u cymharu â ffigurau'r gyllideb atodol ar gyfer 2014-15, dyma'r prif newidiadau i'r cyllidebau ar gyfer 2015-16, yn dangos y gostyngiadau i gyllidebau (cyllidebau refeniw bron yn arian parod) y cyrff a ariannir o'r portffolio Diwylliant a Chwaraeon:

| **Sefydliad** | **Cyllideb Atodol 2014-15 £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2015-16 £'000** | **% y gostyngiad** |
|---|---|---|---|
| **Refeniw (Bron yn Arian Parod):** | | | |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 32,621 | 31,671 | 2.9 |
| Amgueddfa Cymru | 22,236 | 21,886 | 1.6 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 9,921 | 9,721 | 2.0 |
| Chwaraeon Cymru | 22,929 | 22,373 | 2.4 |
| Cadw | 9,110 | 8,820 | 3.2 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | 1,962 | 1,807 | 7.9 |
| Cyngor Llyfrau Cymru | 3,726 | 3,526 | 5.4 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol | 660 | 650 | 1.5 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymru | | | |

**Newidiadau i'r cyllidebau – Cyfalaf**

10. Mae'r dyraniadau ychwanegol a ganlyn wedi'u gwneud i gyllidebau cyfalaf:

| **Maes y Rhaglen Wariant** | **Cyllideb Atodol 2014-15 £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2015-16 £'000** |
|---|---|---|
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 3,300 | 200 |
| Chwaraeon a gweithgarwch corfforol | - | 5,000 |
| | | |
| **Cyfanswm** | **3,300** | **5,200** |

11. Mae prosiect Llyfrgell Genedlaethol Cymru, sy'n werth £3.5m, yn rhan o fuddsoddiad strategol ehangach yn seilwaith ffisegol a thechnegol y Llyfrgell yn dilyn y tân ym mis Ebrill 2013. Yn ogystal, bydd yr arian hwn yn galluogi'r Llyfrgell i ddatblygu ei chyfleusterau storio arbenigol er mwyn gwarchod casgliadau o bwysigrwydd cenedlaethol a sicrhau eu bod yn dal ar gael i'w gweld.

12. Yn unol â'r flaenoriaeth i gynyddu cyfraddau gweithgarwch corfforol er mwyn gwella iechyd, bydd £5m yn cael ei ddyrannu yn 2015-16 tuag at Gynllun Benthyciadau Cyfalaf ar gyfer Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden. Bydd y cynllun peilot newydd yn hwyluso mynd ati mewn ffordd strategol ac integredig i fuddsoddi cyfalaf trwy fuddsoddi-i-arbed. Y nod yw sicrhau bod asedau a chyfleusterau chwaraeon a hamdden yn cael eu rheoli'n well a'u bod yn fwy effeithlon, annog rhagor o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, a gwella iechyd pobl.

**Gwariant a Reolir yn Flynyddol**

13. Mae cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer unrhyw ffïoedd pensiwn a all fod yn angenrheidiol ar gyfer cynlluniau pensiwn Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r cyfanswm ar gyfer 2014-15 yn £2.740m, yn codi i £3.013m yn 2015-16. Cyllideb nad yw'n arian parod yw hon.

**ATEBION I GEISIADAU'R PWYLLGOR AM WYBODAETH BENODOL**

14. Dyma'r atebion i geisiadau'r Pwyllgor am wybodaeth benodol:

**Adroddiad ar gyllideb y llynedd**

15. Atodir copi o Linellau Gwariant y Gyllideb yn Atodiad A.

**Ymrwymiadau'r Rhaglen Llywodraethu**

16. Gellir cyflenwi holl ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu o'r gyllideb sydd ar gael. Mae'n fater o flaenoriaethu'r gwaith o'r cyllidebau'n gyffredinol. Yn amlwg, bydd pwysau ar gyllidebau – yn enwedig gyllidebau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyflawni rhai o'r ymrwymiadau. Fodd bynnag, mae trafodaethau a gafodd fy swyddogion wedi pwysleisio y dylid rhoi blaenoriaeth i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Caiff hyn ei nodi'n glir yn y Llythyrau Cylch Gwaith y byddaf yn eu hanfon at y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

17. Mae gennym Gynllun Tystiolaeth Adrannol sy'n dangos yn fwy cyffredinol y gwaith ymchwil a gwerthuso sy'n gosod ein gwaith ni ar sylfaen o dystiolaeth. Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA) sy'n llywio'r ffordd yr ydym yn gweithio. Mae dull strategol yn cael ei ddatblygu i asesu i ba raddau rydym yn llwyddo i wella iechyd (gweithgarwch corfforol) a dysgu ac i leihau tlodi.

18. Caiff y ffordd yr ydym yn cyflawni'r ymrwymiadau a chanlyniadau hynny eu monitro wrth i ni symud ymlaen trwy'r flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys y cyfarfodydd y byddaf yn eu cael gyda Chadeiryddion a Phrif Weithredwyr y cyrff a noddir, a'r trafodaethau yn y Cyfarfodydd Monitro Chwarterol ar lefel swyddogion. Yna adroddir yr hyn a gyflawnwyd yn Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Lywodraethu. Cynhelir gwerthusiadau o dro i dro ac fel sy'n briodol er mwyn sicrhau bod y canlyniadau a ddymunir yn cael eu gwireddu a bod y buddsoddiadau yn rhoi gwerth am arian.

**Polisïau allweddol**

Dyrannu'r gyllideb

19. Cafwyd trafodaethau helaeth gyda'r sefydliadau sydd â'r dasg o gyflawni polisïau yn y portffolio Diwylliant a Chwaraeon fel rhan o'r broses o benderfynu ar ddyrannu'r gyllideb. Trafodwyd y sefyllfa gyllidebol anodd gyda'r holl gyrff yn ystod cyfarfodydd ar lefel uchel. Gofynnwyd i'r holl gyrff ddarparu gwybodaeth wedi'i seilio ar senarios ar gyfer gostwng eu cyllidebau – yn nodi beth fyddai'r effeithiau, yn cynnwys effeithiau ar gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ac unrhyw ystyriaethau o ran cydraddoldeb. Mae'r cynigion wedi'u gwerthuso'n llawn er mwyn sicrhau arbedion, gan effeithio cyn lleied ag y bo modd ar wasanaethau a rhaglenni.

Gweithredu Strategaeth yr Amgylchedd Hanesyddol

20. Mae'r gyllideb a ddyrennir ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol wedi'i gostwng fel a ganlyn:

| | 2014-15 £m | 2015-16 £m | % y gostyngiad |
|---|---|---|---|
| Refeniw – bron yn arian parod | 11.072 | 10.627 | -4.0 |
| Dim yn arian parod | 0.409 | 3.409 | Dim yn berthnasol |
| Cyfalaf | 5.031 | 4.306 | -14.4 |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **16.512** | **18.342** | **11.1** |

21. Mae'r gostyngiad o 4.0% yn y gyllideb refeniw bron yn arian parod ychydig yn fwy na'r gostyngiad cyfartalog o 3.3% ar draws y Prif Grŵp Gwariant (MEG). Y prif reswm dros hyn yw'r dymuniad i weld incwm Cadw yn cynyddu. Mae ffigwr y gyllideb o £11.072m ar gyfer 2014-15 a nodir uchod yn ffigwr net o gyllideb incwm Cadw o £5m. Disgwylir y bydd ffigwr incwm y flwyddyn nesaf yn uwch gan y bydd y Prosiect Twristiaeth Treftadaeth wedi'i gwblhau. Mae hwn yn cynnwys datblygu cyfleusterau ymwelwyr, cynyddu cynlluniau marchnata a chodi prisiau mewn cofebau allweddol. Yn ôl yr amcangyfrif diwethaf, bydd tua £5.3m, sy'n golygu mai dim ond tuag 1% yn llai na chyllideb eleni y byddai cyllideb refeniw gros y flwyddyn nesaf.

22. Mae'r gyllideb gyfalaf wedi'i gostwng y flwyddyn nesaf gan y disgwylir y bydd y Prosiect Twristiaeth Treftadaeth wedi'i gwblhau eleni. Caiff gofynion cyfalaf Cadw ar ôl 2015-16 eu hailasesu fel rhan o gylch cyllideb y flwyddyn nesaf.

23. Nid oes costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r Bil Treftadaeth yn 2015-16, ac eithrio costau staffio, gan na ddisgwylir i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol tan y gwanwyn 2016, a'i weithredu o flwyddyn ariannol 2016-17 ymlaen.

24. Mae'r gyllideb a ddyrennir i Cadw yn cyfrannu at y canlyniadau a nodir yn fy Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol sef gwarchod ein treftadaeth ac yn annog mynediad, mwynhad a chymryd rhan gan y cyhoedd. Bydd gweithgareddau a ariennir yn cyfrannu at ansawdd bywyd ac ansawdd lle, gan wella cyfleoedd bywyd pobl a helpu i fynd i'r afael â'r agenda trechu tlodi trwy ddatblygu sgiliau a chyfleoedd am hyfforddiant.

Y penderfyniad i beidio ag uno Cadw a'r Comisiwn Brenhinol ac effaith hynny wrth ddyrannu'r gyllideb

25. Nid yw'r penderfyniad i beidio ag uno Cadw a'r Comisiwn Brenhinol wedi cael effaith sylweddol ar y dyraniadau ar gyfer yr amgylchedd

hanesyddol. Pe bai'r cyrff wedi'u huno, y bwriad yn fras oedd cyfuno cyllidebau'r ddau gorff a cheisio gwneud arbedion dros amser. Cafwyd gostyngiad o £250k (3.2%) ar gyfer Cadw, a £155k (7.9%) ar gyfer y Comisiwn Brenhinol. Fodd bynnag, y rheswm dros hyn yw'r angen i ganfod gostyngiadau yn y cyllidebau refeniw, ac nid y penderfyniad i beidio ag uno'r ddau gorff. Bu mwy o ostyngiad yng nghyllideb y Comisiwn Brenhinol gan mai gostyngiad o ddim ond £10k a gafwyd yn eu cyllideb y llynedd.

<u>Dyraniadau Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru</u>

26. Mae'r cyllidebau hyn wedi'u gwarchod i raddau i adlewyrchu'r ffaith eu bod yn sefydliadau cenedlaethol ac mai costau staffio yw tua 75% o'u costau – ac felly bod terfyn ar yr hyn y gallant ei wneud i ostwng eu costau. Mae cynnig mynediad am ddim i'r sefydliadau hyn yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Mae cyllideb y Llyfrgell Genedlaethol wedi'i chadw ar y ffigwr a fwriadwyd ar gyfer 2015-16, sef gostyngiad o £200k (2.0%) o'i gymharu â 2014-15; a chyllideb Amgueddfa Cymru wedi'i gostwng £250k o'i gymharu â'r ffigwr a fwriadwyd, gan roi gostyngiad o gyfanswm o £350k (1.6%) o'i gymharu â 2014-15.

27. Ar ôl i gyllid CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru gael ei warchod yn llwyr y llynedd er mwyn gweithredu strategaethau cenedlaethol ar gyfer y sector, mae'r cyllid yn cael ei ostwng gyfanswm o £325k. Bydd y cyllid a fydd ar gael yn cael ei flaenoriaethu i ddatblygu dull o weithio mewn partneriaeth a gwasanaethau cynaliadwy i gynnal a datblygu'r gwasanaethau cyhoeddus gwerthfawr hyn. Mae Casgliad y Werin Cymru yn dal i gael ei gefnogi, ond gyda gostyngiad yn y cyllid i £100k (sy'n rhan o'r cyfanswm uchod).

<u>Sut y mae'r ffaith bod yr angen yn parhau i fynd i'r afael â'r pethau sy'n rhwystro pobl rhag cymryd rhan yn y celfyddydau ac i hyrwyddo'r cyfle i gymryd rhan yn y celfyddydau mewn ysgolion wedi effeithio ar y cyllid a ddyrennir ar gyfer y celfyddydau.</u>

28. Bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd am y celfyddydau, fel mewn meysydd eraill. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yng nghyllideb Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2015-16 wedi'i gyfyngu i 2.9%, ac mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith y bydd yn ei wneud yn gweithredu adolygiad Dai Smith o'r celfyddydau mewn addysg, ac yn datblygu rhan y celfyddydau yn mynd i'r afael â thlodi.

29. Gan fod dros 80% o gymorth grant Cyngor y Celfyddydau yn mynd tuag at gostau craidd y 72 o 'Sefydliadau Refeniw' sydd ganddo, mae'n amlwg y bydd y gostyngiad yn y gyllideb yn cael rhywfaint o effaith. Fodd bynnag, dywedwyd yn glir wrth Gyngor y Celfyddydau yn eu Llythyr Cylch Gwaith bod gwella mynediad at y celfyddydau a

lefelau cymryd rhan yn y celfyddydau yn dal yn ddwy o'm blaenoriaethau allweddol ar gyfer y Cyngor er gwaetha'r pwysau ar y gyllideb.

30. Mae Cyngor y Celfyddydau hefyd yn un o ddosbarthwyr y loteri. O dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006, ni chaiff dosbarthwyr ddefnyddio arian loteri i gymryd lle cyllid 'a gollwyd' oddi wrth y llywodraeth. Fodd bynnag, cânt ddefnyddio arian loteri i ychwanegu at gyllid y llywodraeth. Fel y cadarnhawyd mewn Datganiad ar y cyd â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ym mis Gorffennaf, mae CCC wedi cytuno i neilltuo £10 miliwn o'i arian loteri, dros y pum mlynedd nesaf, tuag at ein Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Creadigol. Bydd hyn ar ben y £10m ychwanegol y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu, o'r gyllideb Addysg.

<u>Blaenoriaethau ar gyfer polisi darlledu a'r cyfryngau yng Nghymru a sut yr adlewyrchir y rhain yn nyraniadau'r gyllideb</u>

31. Mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant cyhoeddi'n cael ei sianelu trwy Gyngor Llyfrau Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyllid tuag at y gwasanaeth newyddion ar-lein Cymraeg, Golwg 360, sy'n cael dros 8,000 o ymweliadau y dydd ar gyfartaledd, a chymorth i *Golwg, Y Cymro* a *Barn* sy'n gyhoeddiadau Cymraeg ym maes newyddion a materion cyfoes.

32. Bydd gostyngiad o £200k yng nghyllideb Cyngor Llyfrau Cymru yn 2015-16. Mae cylchgronau Saesneg mewn sawl maes, yn cynnwys materion cyfoes/diwylliant, yn cael cyllid gan y Cyngor Llyfrau hefyd. Mae trwydded y cylchgronau newydd gael ei hail-hysbysebu a bydd, unwaith eto, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cylchgrawn cyffredinol yn trafod materion Cymreig cyfoes. Bwriedir i'r gyllideb ar gyfer elfen y cyfryngau yng nghyllideb Cyngor Llyfrau Cymru gael ei gwarchod i raddau helaeth.

33. Mae ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ym maes darlledu yn mynd at gostau staff (a ariennir o Brif Grŵp Gwariant y Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu) yn hytrach nag arian rhaglenni o'r Prif Grŵp Gwariant.

<u>Yr effaith a gafwyd hyd yma o ostwng cyllideb Cyngor Llyfrau Cymru ac atal cyllid y Gronfa Radio Cymunedol</u>

<u>*Cyngor Llyfrau Cymru*</u>

34. Gwn fod dyraniad Cyngor Llyfrau Cymru yn gryn her gan eu bod yn ymdrechu i gynnal ansawdd ac amrywiaeth y llyfrau a gynhyrchir er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth orau bosibl i ddarllenwyr. Mae'n anorfod y bydd cyfyngiadau cyllidebol yn arwain at ostyngiad bychan yn nifer y llyfrau a gyhoeddir.

35. Hyd yma, mae Cyngor Llyfrau Cymru wedi ymdopi â'r gostyngiadau heb i hynny amharu ar werthiant llyfrau. Adlewyrchwyd hyn yn y ffaith fod gwerthiant trwy Gyngor Llyfrau Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2013-14 wedi dangos cynnydd o 5% ar y flwyddyn flaenorol. Bu cynnydd bychan yn y gwerthiant ar gyfer pum mis cyntaf eleni hefyd.

36. Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn sefydliad cymharol fychan oddi mewn i bortffolio bychan ac mae'n rhaid iddo wneud y defnydd gorau o'i adnoddau, felly bydd gostyngiadau pellach yn ei gyllideb yn siwr o gael effaith ar y gwasanaethau y gall y Cyngor eu darparu. Fodd bynnag, rwy'n hyderus y bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn gallu dal ati i gefnogi'r diwydiant cyhoeddi yn y ddwy iaith.

*Y Gronfa Radio Cymunedol*

37. Sefydlwyd y Gronfa Radio Cymunedol yn 2008 i gydnabod y rhan bwysig y mae gorsafoedd radio cymunedol yn ei chwarae yn eu cymunedau. Fe'i sefydlwyd fel cronfa bum mlynedd gyda'r nod penodol o helpu i dalu costau craidd rhedeg gorsafoedd radio cymunedol. Gan mai cronfa bum mlynedd oedd hi, roedd i fod i ddod i ben yn 2012-13 ond penderfynwyd ei hymestyn am flwyddyn arall, gan roi cyfle i orsafoedd radio cymunedol i ymchwilio i ffynonellau ariannol eraill ac i baratoi at ddod yn hunangynhaliol ar ôl mis Mawrth 2014.

38. Yn ystod blwyddyn olaf y Gronfa, bu Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad agos â'r holl orsafoedd radio cymunedol a oedd yn cael grant gan y Gronfa gan sôn wrthynt am gyllid arall a allai fod ar gael gan Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd gwybod i'r gorsafoedd radio cymunedol am lansio'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol ar 3 Chwefror. Yn ogystal, cyhoeddodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar 22 Ionawr y byddai mudiadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau i gymunedau ledled Cymru yn elwa o £7.2 miliwn o gyllid newydd gan Lywodraeth Cymru eleni. Gallasai rhai gorsafoedd radio cymunedol fod yn gymwys i gael cyllid o'r cynlluniau hynny os oeddent yn bodloni'r meini prawf perthnasol.

39. Ym mis Chwefror 2014, cyhoeddodd yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, ymgynghoriad ar radio cymunedol. Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- codi'r cyfyngiadau sy'n atal rhai gorsafoedd radio cymunedol rhag ennill unrhyw incwm o hysbysebion ar yr awyr neu nawdd os ydynt yn gorgyffwrdd â thrwydded radio masnachol sy'n cyrraedd 150,000 neu lai o oedolion
- codi'r cyfyngiadau sy'n atal gorsafoedd radio cymunedol rhag cymryd mwy na 50% o'u hincwm blynyddol o hysbysebion ar yr awyr a nawdd.

40. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad hwnnw trwy ddweud ei bod yn croesawu unrhyw gamau i lacio a/neu newid y cyfyngiadau mewn ffordd a fyddai'n helpu gorsafoedd radio cymunedol yr oedd y rheoliadau'n effeithio arnynt, fel y gallent barhau i gynnig gwasanaeth gwerthfawr yn eu cymunedau. Nid yw'r Adran wedi ymateb i'r ymgynghoriad hyd yma.

Chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol

41. Mae llythyr y Pwyllgor yn gofyn 'Bearing in mind your comment to the Committee in June 2014 that the last year has seen 'a significant reorientation in policy' with regard to sport and active recreation, how has this been reflected in draft budget allocations?'

42. Mae'r dyraniad i gyllideb Chwaraeon Cymru yn adlewyrchu pwysigrwydd agenda chwaraeon a gweithgareddau corfforol. Byddaf yn trafod gyda Chwaraeon Cymru sut y gallwn flaenoriaethu'r rhaglenni y maent yn eu cyflenwi, er mwyn cyflawni ein hamcan o gynyddu cyfranogiad, a sicrhau'r manteision a ddaw yn sgil hynny o ran gwella iechyd a lles.

43. Ar gyfer 2015-16, yn unol â'r flaenoriaeth o gael pobl i wneud mwy o weithgarwch corfforol er mwyn gwella iechyd, dyrennir £5m at Gynllun Benthyciadau Cyfalaf ar gyfer Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden. Bydd y cynllun peilot newydd yn hwyluso mynd ati mewn ffordd strategol ac integredig i fuddsoddi cyfalaf trwy fuddsoddi-i-arbed. Y nod yw sicrhau bod asedau a chyfleusterau chwaraeon a hamdden yn cael eu rheoli'n well a'u bod yn fwy effeithlon, annog rhagor o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, a gwella iechyd pobl.

Pa waith rydych chi wedi'i wneud i fonitro a lleihau effaith y gostyngiad yng nghyllid llywodraeth leol ar y gwasanaethau lleol a gyflenwir ym maes eich portffolio (e.e. gwasanaethau llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau; gwasanaethau chwaraeon a hamdden lleol; sefydliadau bach a thrydydd sector sy'n gweithio ym meysydd yr amgylchedd hanesyddol a'r celfyddydau)?

44. Mae holl awdurdodau lleol Cymru'n wynebu pwysau mawr iawn ar eu cyllidebau, yn enwedig wrth feddwl sut i barhau i gynnal gwasanaethau a chyfleusterau anstatudol. Mater i'r awdurdodau lleol eu hunain yw sut i bennu eu cyllidebau ar gyfer gwasanaethau anstatudol ac nid oes gan Lywodraeth Cymru hawl i ymyrryd.

45. Mae'r awdurdodau lleol wedi'u hannog i roi ystyriaeth lawn i'r ffaith fod miloedd o bobl yn gwerthfawrogi gwasanaethau diwylliant, hamdden a chwaraeon a bod gwerth i'r gwasanaethau hynny. Er fy

mod yn sylweddoli bod pob awdurdod lleol yn wynebu heriau anodd, byddaf yn gweithio i hybu arferion gorau, o ran mynd ati i wneud penderfyniadau mewn ffordd gydgysylltiedig ac ystyried gwahanol fodelau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau. Mae llawer o awdurdodau wrthi'n gwneud hyn yn awr, er enghraifft trwy ffurfio – neu ystyried ffurfio – ymddiriedolaethau annibynnol a sefydliadau eraill nad ydynt yn dosbarthu elw (NPDOs).

Sut y mae cydraddoldeb, cynaliadwyedd ac ystyriaeth o'r iaith Gymraeg wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb.

46. Cynhaliwyd asesiadau effaith integredig eleni ar gyfer y llinellau cyllideb lle ceir y gostyngiadau mwyaf arwyddocaol yn y portffolio Diwylliant a Chwaraeon, sef Cyngor y Celfyddydau. Mae'r rhain, a'r asesiadau effaith a gynhaliwyd y llynedd ar gyfer yr holl linellau cyllideb lle gostyngwyd y cyllidebau, yn dangos ei bod yn annhebygol y bydd effeithiau anghymesur ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, nac ym maes cynaliadwyedd na'r iaith Gymraeg.

47. Oherwydd natur fy mhortffolio, mae llawer o'r gwaith yn cael ei wneud gan y sefydliadau yr wyf yn eu hariannu. Byddaf yn gofyn i'r cyrff hyn eto eleni, yn eu Llythyrau Cylch Gwaith a'u Llythyrau Cyllido, i sicrhau eu bod yn talu sylw llawn i ystyriaethau ynglŷn â chydraddoldeb. cynaliadwyedd a'r iaith Gymraeg yn y penderfyniadau manwl y byddant yn eu gwneud wrth ddyrannu eu cyllidebau.

48. Gwneir gwaith monitro a gwerthuso mewn ffordd bwrpasol ar gyfer y gweithgareddau unigol sydd ym meysydd polisi amrywiol fy mhortffolio.

Gwariant ataliol

49. Yr enghraifft amlycaf o wariant ataliol yn fy mhortffolio i yw gwario i wella ffitrwydd corfforol. Mae tystiolaeth amlwg i gadarnhau'r cysylltiad rhwng ffitrwydd corfforol a disgwyliad oes iachus. Cymerwyd y ffactor hwn i ystyriaeth wrth benderfynu ar y gyllideb i'w dyrannu i Chwaraeon Cymru. Wrth gwrs, mae angen i ni barhau i wario'n fwy effeithiol yn y maes hwn ac i asesu i ba raddau y mae cynnydd mewn gweithgarwch corfforol ymhlith pobl ifanc yn cael ei gynnal weddill eu hoes, os yw'r gwariant wir am wireddu'r potensial o fod yn "ataliol" o ran lleihau gwariant cyhoeddus ar iechyd yn nes ymlaen yn eu hoes. Er bod byw bywyd iachach yn gwella disgwyliad oes iachus, sy'n amlwg yn rhinwedd fawr, mae hefyd yn bwysig cofio bod tystiolaeth ryngwladol yn awgrymu nad oes sicrwydd y bydd hynny'n gostwng gwariant cyhoeddus ar iechyd yn yr hirdymor. Wrth gwrs, hyd yn oed os nad yw'n arbed arian, byddai hwyluso'r ffordd i

bobl fyw bywydau iachach a hirach yn dal yn beth gwerth chweil i'w wneud.

50. Hoffwn nodi rhai ffyrdd eraill y gallai gwariant yn fy mhortffolio fod yn ataliol hefyd:

- Mae'r rhan fwyaf o elfennau fy mhortffolio (e.e. chwaraeon, y celfyddydau, llyfrgelloedd, treftadaeth a mynediad at yr amgylchedd hanesyddol a naturiol) yn debygol o gyfrannu at les meddyliol. Mae costau afiechyd meddwl i economi Cymru yn sylweddol. Mae *Y Canllaw Cychwynnol ar gyfer Lles mewn Llyfrgelloedd* yn amlygu'r cyfraniad a wneir at hybu iechyd a lles pobl ledled Cymru. Mae manteision iechyd cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau creadigol a diwylliannol trwy therapi celf a gweithdai o dan arweiniad artistiaid yn cael eu cydnabod yn helaeth yn y gwaith ymchwil ar yr effeithiau diwylliannol, ond ychydig o dystiolaeth sydd i ddangos a oes manteision i'w cael hefyd o gymryd rhan lai gweithredol, fel mynd i ddigwyddiadau celfyddydol.

- Mae adroddiad Dai Smith "Y Celfyddydau ac Addysg" yn cyfeirio at y dystiolaeth ryngwladol y gall y celfyddydau gyfrannu at godi cyrhaeddiad addysgol, yn enwedig ymhlith plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Gall amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth gyfrannu yn yr un modd. Mae helpu i godi cyrhaeddiad addysgol yn debygol o wella cyfleoedd pobl mewn bywyd ac felly gallai fod yn ataliol o ran gwariant cyhoeddus. Dyna un rheswm pam yr wyf yn gweithio i gynyddu cyfraniad y celfyddydau a threftadaeth at godi cyrhaeddiad addysgol, gan gydweithio â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau mewn ymateb i Adroddiad Dai Smith ac Adroddiad y Farwnes Kay Andrews ar ddiwylliant a thlodi.

- Mae gwaith Cadw gyda throseddwyr ifanc ac unedau cyfeirio disgyblion yn cyfrannu at amcanion Llywodraeth Cymru ym meysydd addysg a chyflogaeth. Mae addysg a llwyddiant i ennill sgiliau a chymwysterau yn cael eu cydnabod yn helaeth fel ffactorau pwysig sy'n cadw plant rhag troseddu, ac yn gwneud pobl yn llai tebygol o aildroseddu yn y tymor hwy.

<u>Darpariaeth ar gyfer deddfwriaeth</u>

51. Mae un Bil yn rhaglen ddeddfwriaethol y portffolio Diwylliant a Chwaraeon sy'n dod oddi mewn i gylch gwaith y Pwyllgor hwn, sef y Bil Treftadaeth – cyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu er mwyn datblygu fframwaith cyfreithiol a fydd yn sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn cael ei reoli a'i warchod yn well. Os caiff y Bil ei basio, dyma fydd y ddeddfwriaeth gyntaf ym maes treftadaeth ar gyfer Cymru'n neilltuol. Disgwylir i'r Bil gael ei gyflwyno

yn y gwanwyn 2015 ac i gael Cydsyniad Brenhinol yn y gwanwyn 2016, a'i weithredu o flwyddyn ariannol 2016/17 ymlaen.

52. Gwnaed asesiad cychwynnol o oblygiadau ariannol y Bil. Mae'r cynigion deddfwriaethol wedi'u datblygu i sicrhau nad yw'r beichiau na'r dyletswyddau newydd ar lywodraeth leol, perchnogion asedau, busnesau ac aelodau'r cyhoedd yn fwy nag sydd raid. Mae'r rhan fwyaf o'r cynigion yn rhai dewisol neu heb oblygiadau ariannol y tu hwnt i'r rhai y gellir eu cyflawni trwy gyllidebau cyfredol yr adrannau, yn cynnwys staffio. Mae'r gwaith ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a fydd yn cynnwys asesiad cynhwysfawr o'r goblygiadau ariannol, yn dod ymlaen yn dda. Ni fydd effaith uniongyrchol nac anuniongyrchol ar y gyllideb ym mlwyddyn ariannol 2015-16.

53. Ni wyddom am unrhyw effeithiau arwyddocaol ar gyllideb unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig ym maes y portffolio.

**Ken Skates AC,**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**

## CULTURE AND SPORT - DRAFT BUDGET BEL TABLE 2015-16 in £'000s

### REVENUE BUDGET - Departmental Expenditure Limit

| SPA | Actions | BEL | BEL Number | 2014-15 Supplementary Budget | 2015-16 Indicative Plans | 2015-16 Changes | 2015-16 Draft Budget |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Support and sustain a strong arts sector via the Arts Council and others** | Support and sustain a strong arts sector via the Arts Council and others | Arts Council of Wales - Running Costs | 5800 | 2,131 | 2,131 | | 2,131 |
| | | Arts Council of Wales - Current Expenditure (inc WMC) | 5800 | 30,490 | 30,240 | -700 | 29,540 |
| | | Arts Council of Wales - Depreciation | 5800 | 119 | 119 | | 119 |
| | | Support for the Arts | 5812 | 668 | 668 | 85 | 753 |
| | **Total Support and sustain a strong arts sector via the Arts Council and others** | | | **33,408** | **33,158** | **-615** | **32,543** |
| **Museums, Archives and Libraries** | Foster Usage and Lifelong Learning through Museum Services | Amgueddfa Cymru - National Museum of Wales - Running Costs | 5540 | 23,920 | 23,820 | -250 | 23,570 |
| | | Amgueddfa Cymru - National Museum of Wales - Current Receipts | 5540 | -1,684 | -1,684 | | -1,684 |
| | | Amgueddfa Cymru - National Museum of Wales - Depreciation | 5540 | 1,120 | 1,120 | | 1,120 |
| | | **Foster Usage and Lifelong Learning through Museum Services** | | **23,356** | **23,256** | **-250** | **23,006** |
| | Foster Usage and Lifelong Learning through Library Services | National Library of Wales - Running Costs/ Current Expenditure | 5660 | 10,341 | 10,141 | | 10,141 |
| | | National Library of Wales - Current Receipts | 5660 | -420 | -420 | | -420 |
| | | National Library of Wales - Depreciation | 5660 | 1,250 | 1,250 | | 1,250 |
| | | **Foster Usage and Lifelong Learning through Library Services** | | **11,171** | **10,971** | **0** | **10,971** |
| | Strategic Leadership for museum, archive & library services | CyMAL - Current Expenditure | 6170 | 206 | 206 | | 206 |
| | | CyMAL - Grants | 6170 | 1,712 | 1,662 | -175 | 1,487 |
| | | CyMAL - Peoples' Collection | 6170 | 600 | 600 | -100 | 500 |
| | | **Strategic Leadership for museum, archive & library services** | | **2,518** | **2,468** | **-275** | **2,193** |
| | **Total Museums, Archives and Libraries** | | | **37,045** | **36,695** | **-525** | **36,170** |
| **Delivery of effective sports & physical activity programmes** | Delivery of effective sports & physical activity programmes | Sports Council for Wales - Running Costs | 5900 | 1,327 | 1,327 | | 1,327 |
| | | Sports Council for Wales - Depreciation | 5900 | 779 | 779 | | 779 |
| | | Sport & Active Wales Fund - Current Expenditiure | 6010 | 21,714 | 21,449 | -291 | 21,158 |
| | | Sport & Active Wales Fund - Free Swimming | 6010 | 3,546 | 3,546 | | 3,546 |
| | | Sport & Active Wales Fund - Current Receipts | 6010 | -3,658 | -3,658 | | -3,658 |
| | | Support for Sport & Physical Activity | 6012 | 31 | 31 | | 31 |
| | **Total Delivery of effective sports & physical activity programmes** | | | **23,739** | **23,474** | **-291** | **23,183** |
| **Media and Publishing** | Media and Publishing | Welsh Books Council - Running Costs | 6150 | 1,103 | 1,153 | | 1,153 |
| | | Welsh Books Council - Current Grants | 6150 | 2,623 | 2,473 | -100 | 2,373 |
| | **Total Media and Publishing** | | | **3,726** | **3,626** | **-100** | **3,526** |
| | | Cadw - Running Costs/Current Expenditure | 2700 | 12,344 | 12,304 | | 12,304 |
| | | Cadw - Grants | 2700 | 2,016 | 2,016 | -250 | 1,766 |
| | | Cadw - Current Receipts | 2700 | -5,250 | -5,250 | | -5,250 |

| SPA | Actions | BEL | BEL Number | 2014-15 Supplementary Budget | 2015-16 Indicative Plans | 2015-16 Changes | 2015-16 Draft Budget |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Conserve, protect, sustain and promote access to the historic and natural environment** | Conserve, protect, sustain and promote access to the historic and natural environment | Cadw - Depreciation | 2700 | 275 | 275 | | 275 |
| | | Cadw - Other non cash | 2700 | 0 | 0 | 3,000 | 3,000 |
| | | RCAHM - Running Costs/Current Expenditure | 6200 | 1,879 | 1,874 | -150 | 1,724 |
| | | RCAHM - Grants | 6200 | 167 | 167 | | 167 |
| | | RCAHM - Current Receipts | 6200 | -84 | -84 | | -84 |
| | | RCAHM - Depreciation | 6200 | 134 | 134 | | 134 |
| | | National Botanic Garden | New | 660 | 650 | | 650 |
| | **Total Conserve, protect, sustain and promote access to the historic environment** | | | **12,141** | **12,086** | **2,600** | **14,686** |
| | | | | | | | |
| | | | | **110,059** | **109,039** | **1,069** | **110,108** |
| | | **Less Depreciation & other non-cash** | | **-3,677** | **-3,677** | **-3,000** | **-6,677** |
| | | **Near Cash** | | **106,382** | **105,362** | **-1,931** | **103,431** |

| | **CAPITAL BUDGET - Departmental Expenditure Limit** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **Actions** | **BEL** | **BEL Number** | **2014-15 Supplementary Budget** | **2015-16 Indicative Plans** | **2015-16 Changes** | **2015-16 Draft Budget** |
| **Support and sustain a strong arts sector via the Arts Council and others** | Support and sustain a strong arts sector via the Arts Council and others | Arts Council of Wales - Capital Investment (inc WMC) | 5800 | 355 | 355 | | 355 |
| | | Support for the Arts - Capital Investment (inc NBGW) | 5812 | 0 | 0 | | 0 |
| | **Total Support and sustain a strong arts sector via the Arts Council and others** | | | **355** | **355** | **0** | **355** |
| **Museums, Archives and Libraries** | Foster Usage and Lifelong Learning through Museum Services | Amgueddfa Cymru - NMW - Capital Maintenance Grant | 5540 | 1,100 | 725 | -125 | 600 |
| | | Amgueddfa Cymru - NMW - Specimen Purchase Grant | 5540 | 538 | 538 | | 538 |
| | | Amgueddfa Cymru - NMW - St. Fagans | 5540 | 125 | 875 | 625 | 1,500 |
| | | **Total Foster Usage and Lifelong Learning through Museum Services** | | **1,763** | **2,138** | **500** | **2,638** |
| | Foster Usage and Lifelong Learning through Library Services | National Library of Wales - Capital Maintenance Grant | 5660 | 925 | 550 | | 550 |
| | | National Library of Wales - Specimen Purchase Grant | 5660 | 305 | 305 | | 305 |
| | | National Library of Wales - Electronic Legal Deposit | 5660 | 0 | 0 | | 0 |
| | | National Library of Wales - Replace Library Roof | 5660 | 0 | 0 | | 0 |
| | | National Library of Wales - Conservation and Digital Centre | 5660 | 3,300 | 200 | | 200 |
| | | **Total Foster Usage and Lifelong Learning through Library Services** | | **4,530** | **1,055** | **0** | **1,055** |
| | Strategic Leadership for museum, archive & library services | CyMAL - Peoples' Collection | 6170 | 50 | 50 | | 50 |
| | | CyMAL - Capital | 6170 | 1,000 | 1,000 | | 1,000 |
| | | **Total Strategic Leadership for museum, archive & library services** | | **1,050** | **1,050** | **0** | **1,050** |
| | **Total Museums, Archives and Libraries** | | | **7,343** | **4,243** | **500** | **4,743** |
| **Delivery of effective sports & physical activity programmes** | Delivery of effective sports & physical activity programmes | Sport and Active Wales Fund - Capital Expenditure | 6010 | 403 | 403 | | 403 |
| | | Sport and Active Wales Fund - Capital Receipts | 6010 | -58 | -58 | | -58 |
| | | Sport and Facilities Capital Loan Scheme | 6013 | 0 | 5,000 | | 5,000 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Total Delivery of effective sports & physical activity programmes** | | | **345** | **5,345** | **0** | **5,345** |
| **Media and Publishing** | Media and Publishing | Welsh Books Council - Capital | | 25 | 25 | 35 | 60 |
| | **Total Media and Publishing** | | | **25** | **25** | **35** | **60** |
| **Conserve, protect, sustain and promote access to the historic and natural environment** | Conserve, protect, sustain and promote access to the historic and natural environment | Cadw - Capital Expenditure | 2700 | 5,016 | 5,016 | -725 | 4,291 |
| | | RCAHM - Capital Expenditure | 6200 | 47 | 47 | | 47 |
| | | RCAHM - Capital Receipts | 6200 | -32 | -32 | | -32 |
| | | National Botanic Garden | New | 95 | 95 | | 95 |
| | **Total Conserve, protect, sustain and promote access to the historic environment** | | | **5,126** | **5,126** | **-725** | **4,401** |
| | | | | | | | |
| | **Total Capital - Culture and Sport** | | | **13,194** | **15,094** | **-190** | **14,904** |



| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **REVENUE BUDGET - Annually Managed Expenditure** | | | | | | |
| **SPA** | **Actions** | **BEL** | **BEL Number** | **2014-15 Supplementary Budget** | **2015-16 Indicative Plans** | **2015-16 Changes** | **2015-16 Draft Budget** |
| **Museums, Archives and Libraries** | Museums | Museums Pensions | 5641 | 2,174 | 2,391 | | 2,391 |
| | Libraries | Libraries Pensions | 5781 | 566 | 622 | | 622 |
| | **Total Museums, Archives and Libraries** | | | **2,740** | **3,013** | **0** | **3,013** |
| | **Total AME - Culture and Sport** | | | **2,740** | **3,013** | **0** | **3,013** |

| **SPA** | **Actions** | **BEL** | **BEL Number** | **2014-15 Supplementary Budget** | **2015-16 Indicative Plans** | **2015-16 Changes** | **2015-16 Draft Budget** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Culture and Sport - Summary** | | | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | | | |
| | Revenue DEL | | | 110,059 | 109,039 | 1,069 | 110,108 |
| | Capital DEL | | | 13,194 | 15,094 | -190 | 14,904 |
| | **Total DEL** | | | **123,253** | **124,133** | **879** | **125,012** |
| | | | | | | | |
| | **Annually Managed Expenditure** | | | **2,740** | **3,013** | **0** | **3,013** |
| | | | | | | | |
| | **Total - Culture and Sport** | | | **125,993** | **127,146** | **879** | **128,025** |

# Eitem 9

**9 Hydref 2014 – Papurau i'w nodi**

| **Rhif papur:** | **Mater** | **Oddi wrth** | **Cam gweithredu** |
|---|---|---|---|
| | | **Papurau cyhoeddus i'w nodi** | |
| 5 | Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) | Heddlu De Cymru | Cytunodd y byddai'n darparu copi o'r adroddiad *Cynllun Heddlu De Cymru ar gyfer Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched 2014 – 2017* |
| 6a | Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru | Llythyr gan Alun Michael, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| 6b | Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru | Adroddiad gan CAADA (co-ordinated action against domestic abuse) – Adolygiad o Wasanaethau i Ddiddefwyr Cam-drin Domestig yn Ne Cymru |

South Wales
Police and Crime Commissioner
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
De Cymru

The South Wales Police approach to
**Violence against women and girls**
and other forms of domestic violence

Tackling violence against women and girls is one of the highest priorities for South Wales Police. It is a strategic priority for the Chief Constable and the Police & Crime Commissioner and that is reflected in the way we approach both operational policing and work with our partners.

Immediately on being elected as Police & Crime Commissioner, Alun Michael made clear his expectation for South Wales Police to seize the opportunity offered by the statements of Welsh Government Ministers to play our part in tackling the unacceptable levels of violence against women and girls.

That sense of urgency is shared by Chief Constable Peter Vaughan and was reflected in the Police and Crime Plan for 2013, and again in 2014, and in the joint applications made to the Police Improvement Fund.

## What we've learnt

To turn intention into action, the Commissioner and the Chief Constable jointly commissioned a Thematic Review which led to the publication of a detailed document which contains an action plan which now informs all aspects of our work. A copy is attached to this note.

There have been questions raised in some quarters as to whether emphasising violence against women and girls risks an unequal response to other forms of violence within relationships, including violence by men on men and women on men.

We wish to take this opportunity to refute that suggestion.

**Each act of violence by one person on another deserves to be treated in accordance with the harm and risk presented. But there are three factors that make tackling violence against women and girls a significant priority for the police.**

- The number of incidents is very high
- The extent of under-reporting is extremely high
- The risk of serious injury or death is disproportionately high

South Wales Police data gives a very clear picture of the prevalence of domestic abuse and sexual violence and clearly demonstrate the disproportionate impact on women and girls.

Our review found that both in scale and seriousness women were by far the biggest victims of domestic abuse sexual assault and honour-based violence recorded in South Wales.

- Domestic violence with injury – 78.6% of victims were women
- Serious sexual offences – 83.8% of victims were women
- Honour-based violence – 75.4% of victims were women

**It follows that there is a public policy imperative for the police and all other public bodies to tackle the level of violence against women and girls which historically has been higher in Wales than in some other parts of the UK. That is reflected in our joint plan.**

**Drafting the Bill**

The Chief Constable and the Commissioner have different roles, so most comments on the Bill now before the Assembly are the responsibility of the Commissioner but have been informed by the operational experience and perspective of the Chief Constable as well as the facts of offending set out above.

It is fully understood that other considerations have to be borne in mind by Ministers and by the Assembly, but it will be helpful if the legislation spells out the same clear priority in both the title and the content of the Bill that is being pursued by South Wales Police and the Commissioner has written to the Minister and the Committee making that point.

It will be preferable if the clarity of messages from Welsh Government is maintained and reinforced in the title of the Bill. If it is felt that referring only to violence against women would be too narrow, expert legal advice sought by the Commissioner shows that the emphasis on violence against women and girls could be maintained while also dealing with equalities issues by calling it "An Act to make provision in relation to violence against women and other domestic and sexual violence".

The work of the police will be helped if the Bill is specific about raising awareness of violence of this sort and challenging entrenched attitudes in society that tolerate, accept or encourage domestic violence and sexual abuse. There is a need to increase awareness of services available to help victims.

**Strengthening partnerships**

The Bill does place responsibilities on local authorities, and that is welcome, not least in view of their responsibility under the 1998 Crime and Disorder Act to work with the police and others to reduce offending and re-offending. However we would like to see that responsibility extended to other agencies whose input is also vital, not least the NHS and Social Housing bodies.

If a responsibility is placed on all public bodies to require an engagement that is proportionate to their general responsibilities it should ensure that they play an appropriate role in helping to reduce violence of this sort.

If the Bill is also strengthened in terms of requiring such bodies to contribute to local strategies, in terms of monitoring and in terms of training we would be happy to make a commitment to work with them to ensure that South Wales Police contribute fully to joint working.

Finally, it is our experience that our formal and informal education play a vital role in changing attitudes within society. The Commissioner has therefore submitted that the Bill should include the commitment to include education in relation to violence against women as well as about gender inequality and the place of respect and consent as essential elements in healthy relationships. When those elements have not been part of a person's upbringing and education the police often have to pick up the pieces and for that reason we welcomed the inclusion of such requirements in the White Paper and in statements by Ministers.

Again we are happy to make a police contribution, as happens to a degree through the work of Police School Liaison Officers in South Wales – funded jointly by Welsh Government and South Wales Police – but we believe that to be effective there need to be specific requirements on all schools. The Rotherham report makes specific reference to the need for these issues to be dealt with explicitly within schools and other educational contexts.

We welcome proposals to formalise and strengthen best practice around multi agency fora. South Wales Police is committed and engaged fully with the MARAC process. Between 1st April 2012 – 31st March 2013, 2,242 cases were heard at MARACs across the force area. A total of 70% of those were referrals that had originated from the police, with the other 30% of referrals coming from partner agencies. The total number of children involved in these cases was 2,869.

Given the importance of the sharing of information and actions across a number of agencies through multi-agency arrangements such as MARACs, it will help if these are put on a legislative footing. The benefits of imposing statutory requirements of this sort are already evident in respect of other public protection issues such as child protection and protection of vulnerable adults.

Statutory requirements in respect of MARACs should include a requirement for key agencies to recognise the MARAC process, to know how to identify and refer appropriate cases, and to participate in the MARAC itself.

It will be welcome if the Government recognises the importance of the role of MARAC co-ordinator and gives consideration to how the funding arrangements for these posts can be put on a sustainable footing. Current arrangements are ad hoc and often very fragile.

We also wish to make clear that, while policing is not currently a devolved responsibility, our work takes place in the context of priorities, policies and agencies which do come directly

under the aegis of Welsh Government and the Assembly. The Police play a key role in the multi-agency response to Domestic Abuse and Sexual Violence and we will do all we can to reflect this priority in future versions of the Police and Crime Plan, in partnership working and in operational decisions.

**The South Wales Police Plan for Tackling Violence Against Women and Girls 2014 – 2017:**

http://www.southwalescommissioner.org.uk/en/Policy/Violence-Against-Women-and-Girls.aspx